Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Adroddiad Blynyddol:

Adroddiad Addasrwydd Ymarfer Blynyddol
Cyfrifon Blynyddol
2011/2012



Adroddiad Blynyddol:

Adroddiad Addasrwydd Ymarfer Blynyddol
Cyfrifon Blynyddol
2011/2012

Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Addasrwydd Ymarfer Blynyddol i'w cyflwyno i'r Senedd ac i Senedd yr Alban yn unol â Pharagraff 8 Atodlen 1 Gorchymyn Fferyllol 2010

Cyfrifon Blynyddol i'w cyflwyno i'r Senedd ac i Senedd yr Alban yn unol â Pharagraff 7 Atodlen 1 Gorchymyn Fferyllol 2010

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heb gynnwys y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi mae eiddo Cyngor Fferyllol Cymru yw'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd o drydydd parti yn cael ei ddefnyddio rhaid cael caniatâd perchennog hawlfraint hwnnw hefyd.

(h) Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2012

129 Lambeth Road Llundain SE1 7BT

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y ddogfen hon i communications@pharmacyregulation.org neu gallwch ffonio ein canolfan cyswllt cwsmeriaid ar 020 3365 3400.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan www.pharmacyregulation.org/publications a gellir ei lawr lwytho o www.official-documents.gov.uk

Dalen cynnwys

1 Neges gan y cadeirydd – Bob Nicholls

3 Adolygiad o'r flwyddyn – prif weithredwr a chofrestrydd Duncan Rudkin

5 Amdanom ni

7 Y gofrestr

9 Safonau a chanllawiau

11 Addysg a hyfforddiant

13 Ein llwyddiannau

17 Gwersi a ddysgwyd

18 Edrych tua'r dyfodol

19 Adroddiad Addasrwydd Ymarfer Blynyddol

23 Anghenion adrodd

24 Llywodraethu ein hunain

29 Datganiad gan y prif weithredwr a chofrestrydd ar reolaeth fewnol

31 Datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

31 Ffigurau allweddol a chynghorwyr cyfreithiol a phroffesiynol

32 Adroddiad y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

37 Datganiadau incwm a gwariant am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

38 Mantolen fel ag y mae ar 31 Mawrth 2012

39 Datganiad llif arian am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

40 Nodiadau i'r datganiad ariannol am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

49 Atodiad 1: Penderfyniad Ar Gyfrifon y Cyngor Fferyllol Cyffredinol gan y Cyfrin Gyngor o dan Orchymyn Fferyllol 2010

Neges gan y cadeirydd

Bob Nicholls

Dyma'n hail adroddiad blynyddol, yn ymdrin â'n blwyddyn weithredol lawn gyntaf (Ebrill 2011 tan Mawrth 2012). Ynddo, gobeithiwn ddangos sut ydym ni, y rheolydd annibynnol dros fferylliaeth, yn cyfrannu tuag at ddiogelu, hybu a cynnal iechyd, diogelwch a lles cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth fferyllol a chynnal hyder y cyhoedd mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Mae cofrestru gweithwyr proffesiynol sydd wedi eu cymhwyso a'u hyfforddi'n addas yn rhan ganolog o'n swyddogaeth. Yn ogystal â chynnydd bychan yn y nifer o fferyllwyr cofrestredig, un o'n llwyddiannau mawr eraill ers i ni gychwyn gweithredu yw i ni gofrestru dros 20,000 o dechnegwyr fferyllol, mwy na dyblu'r nifer ar ein cofrestr a mynd lawer iawn yn bellach yn denu pobl sydd am gofrestru drwy'r dull 'nain a thaid' nag a amcangyfrifwyd. Rydyn ni'n croesawu'r technegwyr fferyllol sydd nawr wedi eu cofrestru gyda ni, yn cydnabod y cyfraniad y gallan nhw ei wneud i ddiogelwch y cyhoedd, a gobeithiwn y byddan nhw'n falch o fod yn weithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig newydd.

Llwyddiant mawr arall yn ystod y flwyddyn, o fudd i'r rheiny sy'n gwneud cwyn, y cyhoedd helaethach ac aelodau cofrestredig, fu'r lleihad yn y nifer o achosion addasrwydd ymarfer yr etifeddwyd nhw gennym o bron 600 (rhai wedi bod ar y llyfrau ers dros bedair mlynedd) i 70, gyda tharged o gwblhau'r rhai y mae eu datrys o fewn ein gallu erbyn Medi 2012. Cyfraniad arall yr ydym wedi ei wneud i ddiogelwch a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn yw'r dull yr ydym wedi ei ddefnyddio i gyflymu achosion newydd, a chynnydd yn ein nod cychwynnol o gwblhau pob achos o fewn 15 mis.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r cyngor yn gweithio ar gasgliad o gynigion am ddull newydd a chyfoes o reoleiddio fferyllfeydd masnachol, ac fe'u derbyniwyd gan y cyngor. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys safonau drafft newydd sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion hyn tua diwedd 2011/12 ac rydym yn disgwyl eu gweithredu yn ystod ail hanner y flwyddyn gyfredol.

Yn sgil trafod a datblygu'r cynigion hyn gyda'n rhanddeiliaid a gweithwyr fferyllol proffesiynol cawsom nifer o gyfleoedd i egluro'n gweledigaeth am foderneiddio rheoleiddio fferyllol a'n diffiniad ni o reoleiddio teg a chymesur.

Mae'r gwaith hwn o reoleiddio fferyllfeydd cofrestredig yn adlewyrchiad o'n hagwedd ac yn arwyddocaol am ddau reswm. Dyma'r tro cyntaf i ni, fel y rheolydd fferyllol annibynnol, ddatblygu ein safonau ein hunain mewn perthynas â fferyllfeydd cofrestredig a'r gwasanaethau a ddarperir ynddynt. Ac mae ein dull yn un newydd sbon, yn symud o set haearnaidd o reolau a chyfarwyddyd i ddull sydd wedi ei seilio ar ganlyniadau i gleifion.

Drwy gydol y gwaith hwn, ein nod fu cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae fferylliaeth yn ei wneud i iechyd a lles pobl Prydain Fawr. Ynghyd â'r ffaith fod gan fferylliaeth botensial i gyfrannu hyd yn oed yn fwy, gyda swyddogaeth helaethach sydd lawer mwy na chyflenwi meddyginiaethau ar bresgripsiwn.

Gyda'r swyddogaethau newydd hyn, daw mwy o botensial risg. Ein swyddogaeth ni yw sicrhau bod y cyhoedd yn ddiogel tra'n cael budd o'r datblygiadau hyn. Mae diogelwch cleifion o'r pwys mwyaf, ond rydyn ni wedi cydnabod nad ein swyddogaeth ni yw mygu blaengaredd ac arloesedd na'r gwasanaethau helaethach newydd sydd o fudd i gleifion.

Mae'r ffaith fod y gwaith datblygu hwn wedi bod yn digwydd tra bo'r CFfC hefyd yn canolbwyntio ar wella'i wasanaethau i aelodau cofrestredig a'r swyddogaethau addasrwydd ymarfer yn deyrnged i'n staff. Mae mwy o fanylion am y gwelliannau sydd wedi eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn.

Y tu hwnt i ni, mae hon hefyd wedi bod yn flwyddyn o ddiwygio a newid, gyda Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lloegr ar ei thaith drwy'r Senedd, a threfniadau gofal iechyd cynyddol wahanol yn cael eu gweithredu yng Nghymru a'r Alban. Gyda phenodi cyfarwyddwyr yng Nghymru a'r Alban, rydym ni nawr yn fwy abl i fonitro ac ymateb i'r datblygiadau hynny. Mae'r diwygiadau yn Lloegr yn cynnwys cynigion am newidiadau mawr i ddatblygiad y gweithlu a iechyd cyhoeddus. Rydyn ni wedi chwarae rôl sylweddol yn y broses o ddylanwadu ar y datblygiadau hyn drwy ein haelodaeth o Medical Education England a'r Fforwm Fferylliaeth/Iechyd Cyhoeddus.

Bu'r cyngor hefyd yn rhan o ddatblygiad adolygiad Comisiwn y Gyfraith ar reoleiddio gweithwyr proffesiynol gofal iechyd. Rydyn ni'n gefnogol iawn i nod yr adolygiad o symleiddio'r trefniadau deddfwriaethol cymhleth sydd y tu ôl i waith y naw rheolydd proffesiynau gofal iechyd. Rydyn ni'n ymateb yn ffurfiol i'r adolygiad hwnnw a byddwn yn dilyn ei daith gyda chryn ddiddordeb.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a chynhyrchiol, a gyda datblygiad ein Cynllun Strategol a'r Cynllun Corfforaethol a ddaw yn ei sgil, mae'r rheolydd cymharol newydd hwn yn dechrau symud ymlaen tra'n sicrhau bod ein gweithgareddau craidd yn cael eu cynnal a'u gwella pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Mae cael cydbwysedd priodol rhwng yr holl waith hwn wedi bod yn her ond bu hefyd yn brofiad pleserus iawn i'r cyngor a hoffwn ddiolch i aelodau'r cyngor am eu cyfraniadau a'u hymroddiad. Hoffwn hefyd ganmol y prif weithredwr a chofrestrydd, a'i staff, am eu gwaith yn dod â'n gweledigaeth o reoleiddio teg a chymesur yn fyw fel hyn.

Adolygiad o'r flwyddyn - prif weithredwr a chofrestrydd

Duncan Rudkin

Gosodom agenda heriol i'n hunain eleni, wrth geisio datblygu system newydd o reoleiddio fferyllfeydd cofrestredig tra'n dal i wella'r ffordd yr ydym ni'n gweithio a darparu gwasanaethau i'n haelodau cofrestredig.

Cafwyd heriau enfawr a dysgwyd gwersi gwerthfawr iawn, a daw'r flwyddyn i ben gydag ymdeimlad cryf o'n diben a hyder yn ein gweledigaeth am reoleiddio fferyllol.

Yn hwn, ein hail adroddiad blynyddol, rydyn ni'n disgrifio'r cynnydd a wnaed gennym, yn ogystal â meysydd y bwriadwn ganolbwyntio arnyn nhw, fel a ddisgrifir yn ein *Cynllun Corfforaethol 2012 - 2015** a'n *Cynllun Strategol 2012 - 2015***.

Bu'n flwyddyn o ddiwygio a newid yn y GIG yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ynghanol hyn oll, rydyn ni wedi gosod fel blaenoriaeth eglurder ar ein swyddogaeth a'n gweledigaeth - yr hyn rydym ni'n ei niwed, yr hyn nad ydym yn ei wneud, sut rydyn ni'n gweithredu fel rheolydd a'n barn ar nifer o faterion.

Rydyn ni wedi gwella'n sylweddol y ffordd yr ydyn ni'n cyfathrebu ac ymwneud â chleifion a'r cyhoedd, gweithwyr fferyllol proffesiynol a'n rhanddeiliaid, er mwyn i ni allu symud ymlaen gyda'n gilydd gyda'n cynlluniau i foderneiddio rheoleiddio fferyllol.

Wrth graidd ein gwaith mae ymrwymiad i reoleiddio mewn ffordd deg a chymesur. I ni, ystyr hyn yw dull llai haearnaidd, gwneud mwy i hybu ac annog proffesiynoldeb ac ymddiried mwy ym marn gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Mae ein gwaith yn dangos yn gliriach na dim ystyr rheoleiddio teg a chymesur:

- datblygu ein safonau ein hunain ar gyfer rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig, yn dangos newid hanfodol yn y dull o reoleiddio fferyllol, wedi ei seilio ar sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cleifion (mae mwy o fanylion ar dudalen 10)
- lleihau'r nifer o achosion ymarfer (AY) sydd heb eu datrys gan 30 y cant
- gwella'n prosesau addasrwydd ymarfer, yn lleihau hyd gwrandawiadau pwyllgorau ar gyfartaledd o dri diwrnod i ddau

Mae ein gwaith i hybu ac annog proffesiynoldeb wedi cynnwys:

- dyblu'r nifer o dechnegwyr fferyllol ar ein cofrestr i 20,766, ar 31 Mawrth 2012
- lansio pedwar canllaw newydd i weithwyr fferyllol proffesiynol - ar gydsyniad, cyfrinachedd cleifion, cynnal ffiniau rhyw clir a mynegi pryderon
- datblygu safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr
- datblygu ein dull 'dysgu', gydag adran ar wersi i'w dysgu o achosion addasrwydd ymarfer ym mwletin ein haelodau cofrestredig, *Regula+e*

* www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/GPhC%20Corporate%20Plan%202012-15.pdf
** www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/Strategic%20plan_lores.pdf

Rydym ni wedi gwneud cynnydd da yn y gwaith o wella'r sicrwydd a ddarparwn a gweithio mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon drwy:

- gwneud arbedion effeithiolrwydd o ychydig dros £2 miliwn drwy ddelio gydag achosion addasrwydd ymarfer mewn ffordd fwy cymesur a newid ein dull o gaffael a rheoli gwasanaethau cyfreithiol
- agor canolfan cyswllt cwsmeriaid mewnol, sy'n ymateb i 1,000 o ymholiadau yr wythnos ar gyfartaledd

Parhaodd y gwaith o wella ein systemau a'n gweithdrefnau mewnol, yn cynnwys penderfynu cael cefnogaeth TG allanol yn sgil yr hyn a ddywedwyd wrthym gan staff yn ein harolwg staff blynyddol.

Rydym ni hefyd wedi adolygu ein strwythur talu a gwobrwyo er mwyn symleiddio'n trefniadau, symud tuag at ddull gwobrwyo yn seiliedig ar berfformiad, a mwy o bwyslais ar gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad i staff, eto yn sgil barn staff yn yr arolwg staff.

Mae mwy o fanylion am ein llwyddiannau ar dudalen 13.

Wrth gwrs, doedd popeth ddim yn berffaith. Mae ein gallu i ddysgu gwersi pan fo pethau'n mynd o chwith yn bwysig iawn i ni. Cafwyd nifer o broblemau, er enghraifft, yn yr asesiad cofrestru ym Mehefin 2011. Yn ystod asesiad Medi'r flwyddyn hwn, bachwyd ar y cyfle i graffu o'r newydd ar ein prosesau ac o ganlyniad rydym ni wedi cyflwyno newidiadau pwysig i asesiad Mehefin 2012, yn cynnwys ychwanegu tri lleoliad a newid y dull o gofrestru ymgeiswyr wrth iddynt gyrraedd.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae blwyddyn heriol a phrysur arall o'n blaenau. Bydd y safonau rheoleiddio fferyllfeydd newydd yn cael eu gorffen a byddwn yn datblygu model arolygu newydd i fonitro a gorfodi'r safonau hynny. Bydd rhan o'r gwaith hwnnw yn edrych ar adroddiadau cyhoeddus am berfformiad fferyllfeydd yn erbyn y safonau hynny. Rydym ni'n awyddus i adeiladu ar y gwaith da a wnaed eleni i wella'n cyfathrebu a'n hymglymiad gyda chleifion a'r cyhoedd, er mwyn i'r system adrodd a fydd yn cael ei chreu yn un ystyrlon a defnyddiol.

Dylai pawb sy'n gweithio i a gyda'r CFfC sylweddoli faint o gynnydd a wnaed eleni. Hoffwn ddiolch iddynt, ac i'n partneriaid lu, am eu cefnogaeth gyson.

O'r chwith i'r dde, Bernard Kelly (Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau), Duncan Rudkin (Prif Weithredwr a Chofrestrydd), Hilary Lloyd (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheoleiddio) a Hugh Simpson (Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu).

Amdanom ni

- mae dros 1.6 miliwn o ymweliadau y dydd â fferyllfeydd ym Mhrydain Fawr. Swyddogaeth y CFfC yw sicrhau bod fferyllwyr a thechnegwyr cofrestredig, a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt o fferyllfeydd cofrestredig, yn ddiogel
- ein rôl yw diogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Disgrifir y rôl hwn mewn deddfwriaeth a adwaenir fel y Gorchymyn Fferyllol
- rydym ni'n diogelu'r cyhoedd mewn dwy ffordd - drwy gofrestru gweithwyr proffesiynol cymwys i ymarfer fferylliaeth a thrwy reoleiddio'r system o reoli a darparu gwasanaethau fferyllol masnachol
- sefydlwyd ni gan Senedd y DU a Senedd yr Alban
- ni yw'r rheolydd fferyllol annibynnol cyntaf ym Mhrydain Fawr, ac rydym yn gyfrifol am Gymru, Lloegr a'r Alban, ond nid Gogledd Iwerddon
- daw ein cyllid o'r ffioedd a delir gan y gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r fferyllfeydd sy'n cofrestru gyda ni, nid o ffynonellau arian cyhoeddus
- mae ein gwaith yn cyffwrdd â bywydau gweithwyr fferyllol proffesiynol o'r diwrnod pan fo'u hyfforddiant yn cychwyn i'w diwrnod olaf yn gweithio gyda ni fel aelodau cofrestredig (gweler ffigur 1)
- yn Llundain y mae ein pencadlys ond mae gennym staff yn gweithio ar hyd a lled Prydain Fawr. Ar 31 Mawrth 2012, roedd gennym weithwyr yn cyfateb i 134 o staff llawn amser a 247 o weithwyr cysylltiol, yn cynnwys, er enghraifft, aelodau ein paneli addasrwydd ymarfer ac adolygwyr datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- mae gennym gyngor llywodraethu â 7 gweithiwr fferyllol proffesiynol arno a 7 aelod o'r cyhoedd. Mae mwy amdanyn nhw ar dudalen 25.
- mae ein prif weithredwr a chofrestrydd, Duncan Rudkin, yn atebol i'r cyngor llywodraethol hwn. Mae tri chyfarwyddwr yn arwain prif swyddogaethau gweithredol y cyngor. Mae mwy amdanyn nhw ar dudalen 25.

Ffigur 1: Ein gwaith

Rydyn ni'n rhan o fywyd gweithwyr fferyllol proffesiynol o'r diwrnod y mae eu hyfforddiant proffesiynol yn cychwyn:

addysg a hyfforddiant
- gosod safonau, achredu cyrsiau a chymeradwyo cymwysterau fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol
- sicrhau ansawdd yr hyfforddiant blwyddyn o hyd sy'n ofynnol i bob hyfforddai fferyllol ei wneud cyn cofrestru
- gosod a threfnu yr arholiad terfynol y mae'n rhaid i ymgeiswyr lwyddo ynddo cyn cofrestru
- gwirio fod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn diweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth

cofrestru gweithwyr proffesiynol cymwys
rhaid i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol fod wedi cofrestru i ymarfer a chael yr hawl i ddefnyddio un o'r teitlau hynny

cofrestru fferyllfeydd
fel fferyllfeydd mewn archfarchnadoedd ac ar y stryd fawr, a rhai fferyllfeydd mewn ysbytai

gosod a monitro safonau
diben ein safonau yw diogelu cleifion a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Rhaid i weithwyr fferyllol a fferyllfeydd gyrraedd ein safonau er mwyn aros ar y gofrestr

arolygu fferyllfeydd
mae ein harolygwyr yn sicrhau yn gyson fod fferyllfeydd yn cyrraedd ein safonau

gweithredu pan na chyrhaeddir ein safonau
mae'r gweithredu hwnnw yn cynnwys gwahardd rhywun rhag gweithio fel gweithiwr fferyllol proffesiynol am gyfnod penodol neu eu dileu o'r gofrestr. Os ydyw'n cael ei ddileu, ni all person ymgeisio i gofrestru eto am o leiaf bum mlynedd.

mae mwy amdanom ni a'n dulliau gweithio yn:
www.pharmacyregulation.org/about-us

O gwmpas Prydain Fawr

Mae trefniadau a darpariaeth gwasanaethau iechyd yn newid ymhob rhan o Brydain. Rhaid i ni adlewyrchu ac ymateb i ddatblygiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Eleni recriwtiwyd cyfarwyddwr i'r Alban ac i Gymru gennym, ac rydyn ni wedi rhoi Cynllun yr Iaith Gymraeg yn ei lle. Mae mwy o fanylion am y Cynllun, yn cynnwys ein safonau gwasanaeth, yn www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/Welsh%20Language%20Scheme.pdf

Rydyn ni hefyd wedi cytuno i gydweithio gyda 'r Pharmaceutical Society of Northern Ireland drwy arwyddo memorandwm dealltwriaeth, er mwyn i ni allu diogelu'r cyhoedd yn fwy effeithiol gyda'n gilydd.

Y gofrestr

Ein swyddogaeth yw cynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth. Mae'r gofrestr yn fan da i gychwyn - mae hon yn ysytem ar-lein sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n hysbysu cleifion, y cyhoedd, gweithwyr fferyllol proffesiynol ac eraill o'r sawl sydd wedi eu cofrestru ac a ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ar eu haddasrwydd ymarfer.

Er mwyn gallu ymarfer ym Mhrydain Fawr, rhaid i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, a'r sawl sy'n gweithredu lleoliadau fferyllol, ein sicrhau eu bod yn diwallu ein hanghenion manwl. Dim ond pan ydym ni'n hyderus bod hynny'n wir y gallan nhw ymuno â'r gofrestr.

Pan fo gweithwyr fferyllol yn adnewyddu eu haelodaeth yn flynyddol, rhaid iddynt gwblhau datganiad eu bod yn cyrraedd ein safonau i gyd.

Mae unrhyw yn sy'n gweithredu fel fferyllydd neu dechnegydd fferyllol, neu'n defnyddio'r teitlau hynny, ond heb fod yn aelodau o'n cofrestr, yn torri'r gyfraith a gellir ei erlyn.

Mae'r gofrestr yn cynnwys manylion fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd. Gallwch chwilio'r gofrestr yn www.pharmacyregulation.org/theregister/index.aspx

Pwy sydd ar y gofrestr
(fel y mae ar 31 Mawrth 2012)

- 45,435 o fferyllwyr
- 20,766 o dechnegwyr fferyllol
- 13,850 o leoliadau fferyllol

Un o'n prif swyddogaethau yw cynnal ffydd y cyhoedd yn y gofrestr. Un ffordd o wneud hyn yw gweithredu pan fo rhywun nad yw wedi ei gofrestru yn gweithredu fel fferyllydd neu dechnegydd fferyllol. Cafwyd yr erlyniad cyntaf eleni o rywun oedd yn gweithio fel fferyllydd tra'i fod wedi ei wahardd o'r gofrestr. Fe'i cafwyd yn euog yn Llys Ynadon Tower Bridge a chafodd ddirwy o £1,750 a chostau.

Dilëwyd cyfanswm o 2.5 y cant o aelodau cofrestredig o'r gofrestr ar 31 Rhagfyr 2-11 am iddynt beidio ag adnewyddu eu haelodaeth.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- 1037 o fferyllwyr
- 158 o dechnegwyr fferyllol
- 34 o leoliadau fferyllol

Gallant ymgeisio i gael eu hadfer i'r gofrestr. Erbyn diwedd 2011/12, roedden ni wedi adfer 340 o fferyllwyr a 34 o dechnegwyr fferyllol.

Ystyriodd Pwyllgor Apeliadau'r CFfC apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â chaniatáu i unigolyn gofrestru fel technegydd fferyllol.

Roedd hi wedi ymgeisio i fod yn aelod gwirfoddol o gofrestr y rheolydd blaenorol (Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr, CFfFPF) yn 2006, y datgan ei bod wedi ei chael yn euog o drosedd yn ymwneud â gordalu budd-daliadau. Gwrthodwyd ei chais.

Yn 2011, ymgeisiodd i ymaelodi a'n cofrestr ni, fel yr oedd gofyn iddi wneud cyn gallu parhau i weithio fel technegydd fferyllol. Ond pan ofynnwyd iddi "a ydych erioed wedi ymgeisio i ymaelodi â'r CFfC yn y gorffennol?" ac "a ydych wedi eich cael yn euog o drosedd yn y gorffennol?" atebodd "na" i'r ddau gwestiwn. Cafodd yr apêl ei gwrthod a gwrthodwyd ei chais i ymaelodi â chofrestr y CFfC.

Mae mwy o wybodaeth am waith ein Pwyllgor Apeliadau ar www.pharmacyregulation.org/about-us/who-we-are/gphc-committees/appeals-committee

> Rydyn ni'n gosod safonau fel sail i ymarfer fferyllol diogel ac effeithiol. Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol gydymffurfio gyda'n safonau a dilyn y gyfraith i aros ar y gofrestr.

Safonau a chanllawiau

Ein nod yw hyrwyddo ac ymgorffori ymarfer proffesiynol. Un ffordd o wneud hyn yw cyhoeddi safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol a'r sawl sy'n gweithredu fferyllfeydd cofrestredig eu cyrraedd er mwyn aros ar y gofrestr.

Rydym ni hefyd yn cyhoeddi dogfennau canllaw sy'n egluro prif elfennau'r safonau hyn mewn mwy o fanylder.

Safonau

Rydyn ni wedi cyhoeddi safonau ar:

- ymddygiad, moeseg a pherfformiad
- busnesau fferyllol masnachol (safonau dros dro yw'r rhain, ar gyfer perchenogion fferyllfeydd masnachol a fferyllwyr arolygol)
- datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- addysg a hyfforddiant fferyllwyr
- addysg a hyfforddiant technegwyr fferyllol

Mae mwy o fanylion ar hyn yn www.pharmacyregulation.org/standards.

Canllawiau

Rydym ni wedi cyhoeddi pedwar canllaw eleni, ar:

- sicrhau cydsyniad cleifion
- cyfrinachedd cleifion
- mynegi pryderon
- cynnal ffiniau rhyw clir

Mae mwy o fanylion yn www.pharmacyregulation.org/standards/guidance.

Moderneiddio rheoleiddio fferyllol

Yn gynnar yn 2012, cynigion ni newidiadau mawr i'r ffordd y rheoleiddir fferyllfeydd ar hyd a lled Prydain Fawr. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys gofynion cofrestru newydd, safonau drafft newydd ac agwedd newydd tuag at gydymffurfiaeth a gorfodi.

Mae ein cynigion yn cynnwys safonau newydd sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion. Mae'r pwyslais hwn ar ganlyniadau yn newid mawr ym myd rheoleiddio fferylliaeth, yn symud i ffwrdd o gyfarwyddyd haearnaidd gam wrth gam.

Mae'r gwaith hwn yn arwyddocaol am ei fod yn ddull newydd sbon a'r nod yw creu safonau i fferyllfeydd cofrestredig yn hytrach nag i weithwyr proffesiynol unigol. Dechreuodd yr ymgynghoriad gyda lansiad cenedlaethol a fynychwyd gan gyrff fferyllol proffesiynol cenedlaethol, a chafwyd digwyddiadau i randdeiliaid yng Nghaeredin a Chaerdydd. Aethom ni i 35 o gyfarfodydd a digwyddiadau ar hyd a lled Prydain Fawr, yn cynnwys trafodaethau gyda chleifion a'r cyhoedd yn Llundain, Lerpwl, Glasgow a Chaerdydd.

Rydym ni wedi derbyn ymatebion ffurfiol gan y cyrff proffesiynol a diwydiannol, dros 300 o holiaduron gan weithwyr fferyllol proffesiynol, ac mae dros 4,700 o bobl wedi ymweld â gwefan yr ymgynghoriad.

Ein cadeirydd, Bob Nicholls, yn y lansiad cenedlaethol

Bydd ein cyngor llywodraethol yn penderfynu ar y safonau arfaethedig newydd ym mis Medi 2012 a bwriedir gwneud gwaith pellach ar ein dull o weithredu'r safonau newydd hyn, yn cynnwys model arolygu newydd a dull newydd o adrodd am berfformiad yn erbyn y safonau.

Arolygu fferyllfeydd

O'r naw corff proffesiynol sy'n rheoleiddio gofal iechyd, ni yw'r unig un sydd â'n harolygwyr ein hunain. Eu gwaith yw arolygu fferyllfeydd cofrestredig i weld a ydynt yn cyrraedd ein safonau, a'u cynghori ar ddulliau o'u cyrraedd os nad ydynt yn gwneud hynny eisoes.

O dan y model arolygu presennol, dylid arolygu pob fferyllfa bob rhyw dair mlynedd. Mae ein cynigion ar foderneiddio rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig yn cynnwys datblygu dull arolygu newydd yn 2012/13. Bydd y dull hwn yn seiliedig ar risg ac yn canolbwyntio ar gefnogi fferyllfeydd lle mae mwyaf o risg i gleifion a'r cyhoedd. Gallai hyn fod yn sgil natur y gwasanaethau neu am fod pryderon yn bodoli.

Addysg a hyfforddiant

Ffordd allweddol o ddiogelu cleifion a'r cyhoedd yw sicrhau bod gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol gymwysterau priodol pan fônt yn ymgeisio i ymaelodi â'r gofrestr.

Ym Mhrydain, mae'n cymryd tair mlynedd i hyfforddi fel fferyllydd. Rhaid i ymgeiswyr lwyddo mewn gradd feistr dari mlynedd mewn fferylliaeth (MFfer) ar gwrs a achredir gennym ni. Rhaid iddynt hefyd dreulio blwyddyn yn ennill profiad gwaith mewn fferyllfa weithredol, dan oruchwyliaeth tiwtor, y mae'n rhaid iddo/iddi fod yn fferyllydd cofrestredig. Rhaid i hyfforddai wedyn sefyll ein hasesiad cofrestru, y mae'n rhaid iddynt lwyddo ynddo cyn gallu bod ar y gofrestr.

Rhaid i dechnegwyr fferyllol gwblhau dwy flynedd o brofiad yn seiliedig ar waith o dan gyfarwyddyd uniongyrchol fferyllydd, ac ennill cymwysterau ar sail gallu a gwybodaeth ar gyrsiau yr ydym ni'n eu cydnabod neu'n eu hachredu.

Ein rôl mewn addysg a hyfforddiant

- gosod safonau addysg a hyfforddiant fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol
- achredu cyrsiau a chymeradwyo cymwysterau fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, yn cynnwys cyrsiau gradd MFfer
- sicrhau ansawdd yr hyfforddiant a roddir cyn cofrestru
- gosod a threfnu'r asesiad cofrestru i hyfforddeion sydd am fod yn fferyllwyr
- achredu cyrsiau i staff cymorth fferyllfeydd, yn cynnwys cynorthwywyr dosbarthu meddyginiaeth a chynorthwywyr cownter.

Paratoi i gofrestru ymgeiswyr yn asesiad Medi 2011

Eleni, roedd:

- 24 o ysgolion fferyllol achrededig ym Mhrydain, a phump yn gweithio tuag at gael eu hachredu, cynnydd o un ysgol achrededig ers llynedd. Dechreuodd tair prifysgol y broses achredu am y tro cyntaf

- 2,651 o hyfforddeion newydd yn cychwyn ar hyfforddiant cyn gofrestru – 2,478 yn dilyn gradd feistr mewn fferylliaeth a 173 o fferyllwyr oedd wedi cymhwyso dramor yn cychwyn ar raglen asesu fferyllwyr dramor (OSPAP)

Hefyd:

- 2,357 o ymgeiswyr yn sefyll yr asesiad ym Mehefin 2011 a 570 ym Medi 2011, gyda graddfa lwyddo o 87.9 y cant yn asesiad Medi.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Wedi i weithwyr fferyllol proffesiynol gofrestru, rydym ni'n disgwyl iddynt ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau yn barhaus. Un ffordd o wirio hyn yw drwy broses datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Pob blwyddyn, disgwylir i weithwyr fferyllol ar ein cofrestr i gofnodi o leiaf naw enghraifft o ddysgu a datblygu, yn adlewyrchu'r cyd-destun y maen nhw'n gweithio ynddo ac ystod eu hymarfer.

Cyflwynwyd rheolau newydd gennym ym mis Gorffennaf 2011 yn sail i drefniadau DPP. Fel rhan o'r trefniadau hynny, rhaid i o leiaf dair o'r naw enghraifft gychwyn gyda sylw ar yr hyn y mae'r gweithwyr fferyllol o'r farn sydd arno neu arni angen ei ddysgu a pham.

Rydyn ni hefyd yn cynnal system o wirio DPP, o'r enw 'galw ac adolygu', lle rydym ni'n gofyn am gofnodion DPP y bum mlynedd flaenorol ac yn eu hadolygu.

Penderfynwyd eleni i weithredu'r broses 'galw ac adolygu' dros gyfnod o chwe mis o Dachwedd i gychwyn Mai. Mae hyn yn osgoi'r cyfnod ymgeisio am aelodaeth ac adnewyddu aelodaeth prysur.

Ein nod yw galw 800 o gofnodion pob pythefnos yn ystod y chwe mis hynny.

Yn sgil materion capasiti ac ailstrwythuro, ym mis Ionawr 2012 y dechreuodd y broses 'galw ac adolygu', yn galw 1,000 o gofnodion pob pythefnos er mwyn gallu cwblhau'r broses erbyn Mai 2012.

Dan y rheolau newydd a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2011, gellir dileu gweithiwr fferyllol proffesiynol sy'n methu ag ymateb i'n cais adolygu erbyn y dyddiad cau o'r gofrestr. Rydym ni'n datblygu'r broses dileu gweinyddol hon a chyfeiriwyd 30 o aelodau na ddiwallodd y gofynion DPP o'r broses addasrwydd ymarfer i'r broses newydd hon eleni.

Siarad ag aelodau o'r cyhoedd yn Glasgow

Ein llwyddiannau

Gwrando ar gleifion a'r cyhoedd

Trefnom ni ddigwyddiadau yn Llundain, Lerpwl, Glasgow a Chaerdydd. Daeth dros 110 o gleifion ac aelodau o'r cyhoedd iddynt i gyfrannu at yr ymgynghoriad ynghylch moderneiddio rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig. Rydym ni'n bwriadu defnyddio'u hadborth a'u barn i lywio'r gwaith moderneiddio hwn.

Datblygom ni becyn cymorth ymgynghori a anfonwyd i fwy na 30 o sefydliadau sy'n gweithio gyda chleifion neu aelodau o'r cyhoedd neu yn eu cynrychioli. Mae'r pecyn hwn yn esbonio ein rôl a'r newidiadau yr ydym ni am eu cyflwyno i'r gwaith o reoleiddio fferyllfeydd.

Am y tro cyntaf erioed, fe drefnom hefyd i ymgynnull cynrychiolwyr o 11 o ysgolion fferyllol, i rannu syniadau ynghylch ffyrdd i gynnwys cleifion a'r cyhoedd mewn addysg fferyllol.

Bu cleifion yn rhannu eu profiad yn defnyddio gwasanaethau fferyllol. Roedd hyn o fudd i brifysgolion wrth asesu a gwella eu perfformiad yn erbyn y gofynion i gynnwys cleifion yr ydyn ni'n eu disgrifio yn ein safonau addysg newydd.

Gofynnom hefyd i gleifion ac aelodau o'r cyhoedd beth yr oedden nhw am ei wybod amdanom ni a sut gallwn ni wella'r ffordd yr ydym ni'n cyfathrebu ac yn ymwneud â nhw.

Mae hyn wedi arwain at ffyrdd newydd o weithio - cyflwynwyd dulliau newydd o gynnal trafodaethau gyda nhw am eu profiadau yn defnyddio gwasanaethau fferyllol, a'r hyn y maen nhw'n ei ddisgwyl gennym ni.

Mae ein cyhoeddiadau hefyd wedi eu hailddylunio, gan newid y ffordd y maen nhw'n cael eu hysgrifennu er mwyn ceisio cyfathrebu yn yr ieithwedd gliriaf bosibl.

Ein llwyddiannau

Yn unol â'n hawydd i reoleiddio mewn ffordd deg a chymesur, rydyn ni wedi:

- lleihau'r nifer o achosion addasrwydd ymarfer nad ydynt wedi eu datrys gan 30 y cant
- gwellau ein prosesau addasrwydd ymarfer, a lleihau hyd gwrandawiadau pwyllgor o dri diwrnod i ddau, ar gyfartaledd
- cynnig gostyngiad o 10 y cant mewn ffioedd adnewyddu i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol o 15 Hydref 2012
- datblygu ein safonau ein hunain i reoleiddio fferyllfeydd cofrestredig (fel a ddisgrifir ar dudalen 8)
- llunio ein polisi erlyn ein hunain, yn egluro mai ein gweithdrefn addasrwydd ymarfer yw'r ffordd fwyaf priodol o ddelio gyda phryderon am y mwyafrif helaeth o weithwyr fferyllol proffesiynol sydd wedi ei cofrestru gyda ni
- Egluro, yn sgil adolygiad arfaethedig i'r Ddeddf Feddyginiaethau, nad ydyn ni'n ystyried camgymeriadau unigol wrth ddosbarthu meddyginiaeth fel mater sy'n perthyn i'r gyfundrefn addasrwydd ymarfer, onid oes ffactorau sylweddol eraill ar waith.

I hybu ac annog proffesiynoldeb rydym ni wedi:

- dyblu'r nifer o dechnegwyr fferyllol ar ein cofrestr i 20,766 fel y mae ar 31 Mawrth 2012
- lansio pedwar canllaw newydd i weithwyr fferyllol proffesiynol - ar gydsyniad, cyfrinachedd cleifion, cynnal ffiniau rhyw pendant a mynegi pryderon
- datblygu safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant ein fferyllwyr
- creu diwylliant "dysgu", yn cynnwys cyhoeddi gwersi i'w dysgu o achosion addasrwydd ymarfer yn ein cylchgrawn deufisol i aelodau cofrestredig
- pennu cylch gwaith rhaglen ailddilysu i'w datblygu, er mwyn sicrhau bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn parhau'n gymwys i ymarfer.

Rydyn ni wedi gweithio mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon:

- gwneud arbedion effeithiolrwydd o dros £2 miliwn drwy ddelio gydag achosion addasrwydd ymarfer mewn ffordd fwy cymesur a newid y ffordd yr ydyn ni'n caffael a rheoli gwasanaethau cyfreithiol
- gwella'r gwasanaethau yr ydym ni'n eu cynnig i'n haelodau, yn cynnwys agor canolfan cyswllt cwsmeriaid mewnol, sy'n ateb 1,000 o ymholiadau yr wythnos ar gyfartaledd.

Rhoi anghenion cleifion yn gyntaf

Datblygwyd cynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd i'n sefydliad. Y gobaith yw y bydd hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio fel canllaw i'r diwydiant fferyllol.

Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n ddyletswydd arnom i hybu cydraddoldeb - nid dim ond diogelu pobl rhag camwahaniaethu anghyfreithlon - ond hefyd i sicrhau nad oes camwahaniaethu anghyfreithlon yn digwydd o fewn gwasanaethau fferyllol.

Mae'r ddyletswydd hon yn hanfodol i'r safonau a osodir gennym a'r canllawiau a ddatblygir gennym. Rydym ni'n awyddus i ddylanwadu ar fferylliaeth, yn ogystal â'i reoleiddio, yn helpu pobl i weld bod cydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd o fydd i'w busnesau.

Yn y pendraw, mater o ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i bob cwsmer a chlaf yw hyn - pwy bynnag y bont ac ym mha le bynnag y maent.

Ein Llwyddiannau

Cyfathrebu gyda'n haelodau cofrestredig

Rydym ni wedi gwella'r ffordd yr ydym ni'n cyfathrebu gyda'n haelodau cofrestredig drwy:

- agor canolfan cyswllt cwsmeriaid mewnol, sy'n delio gyda dros 1,000 o ymholiadau yr wythnos
- ailddylunio'r teclynnau a'r gweithgareddau cyfathrebu a ddefnyddiwn i atgoffa pobl o'r angen i adnewyddu aelodaeth
- ailwampio ein gwefan i'w gwneud yn haws i'w defnyddio
- defnyddio cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith, a
- sefydlu grwpiau ar-lein, gyda dros 3,000 o danysgrifwyr, yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Regula+e yw ein cylchgrawn i aelodau, a gyhoeddir pob dau fis, ac sy'n cynnwys newyddion a barn ar reoleiddio fferyllol, ynghyd â gwersi i'w dysgu o achosion addasrwydd ymarfer.

Rydym ni hefyd wedi ailddylunio'r bwletinau a gyhoeddir yn y gwanwyn a'r hydref ar gyfer hyfforddeion fferyllol sy'n paratoi am yr asesiadau cofrestru, er mwyn eu gwneud yn haws i'w defnyddio.

Croesawu technegwyr fferyllol i'r gofrestr

Erbyn diwedd Mawrth 2012, roedd gennym 20,766 o dechnegwyr fferyllol ar y gofrestr, dros ddwbl y nifer a gofrestrodd (9,127) ym mis Medi 2010. Maen nhw'n ymuno ag 1.2 miliwn o weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sydd wedi eu cofrestru ym Mhrydain.

Deth yn orfodol i dechnegwyr fferyllol gofrestru ar 1 Gorffennaf 2011. Cawsom fwy na'r disgwyl o ymgeiswyr, ac roedd eu prosesu yn her fawr i ni. Roeddem ni wedi rhagweld mai dim ond i 16,500 y byddai'r gofrestr yn cynyddu.

Cyflogwyd staff ychwanegol gennym i brosesu'r ceisiadau hyn mewn ffordd mor gyflym ac effeithiol â phosibl. Gorffennwyd y cam cyntaf o'r broses erbyn diwedd 2011 ac roedd gennym nifer fechan o geisiadau oedd heb eu prosesu erbyn diwedd 2011/12. Roedd rhai o'r rhain yn aros i gael eu gwerthuso'n allanol.

Os gwrthodir cais, bydd rhaid i'r person hwn roi'r gorau i weithio fel technegydd fferyllol ac ennill cymwysterau newydd.

Yr hyn a ddywedom ni

Fel rhan o'r gwaith o egluro'n swyddogaeth yn fwy manwl rydyn ni wedi mynegi barn ar nifer o faterion yn ymwneud â fferylliaeth eleni.

Annog onestrwydd am gamgymeriadau dosbarthu

Rydym ni am hybu diwylliant agored ymhlith gweithwyr fferyllol proffesiynol - ac mae hyn yn cynnwys adegau pan fo 'achlysuron anffodus' yn digwydd, fel camgymeriadau dosbarthu meddyginiaeth.

Gallai unrhyw beth sy'n rhwystro unigolion rhag bod yn onest am ddigwyddiadau anffodus niweidio diogelwch. Dyna'r rheswm dros gyhoeddi nad ydym yn ystyried camgymeriadau unigol wrth ddosbarthu meddyginiaeth fel pethau y dylid eu cynnwys mewn materion addasrwydd ymarfer, oni bai bod ffactorau mawr eraill ar waith.

Bydd adolygiad ar ddeddfwriaeth berthnasol yn digwydd yn 2012/13, a byddwn yn ei gefnogi.

Asesu gallu ieithyddol i ddiogelu cleifion

Yn sgil ymchwiliad gan Dy'r Arglwyddi yn 2011 i symudedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol Ewrop, cafwyd cyfle i ailddatgan ein barn ar fater galluedd ieithyddol.

Credwn y dylai pob rheolydd gofal iechyd gael yr hawl i brofi galluedd darpar aelodau yr iaith Saesneg, cyn rhoi'r hawl iddynt i ymaelodi.

Roeddem ni'n croesawu casgliad Ymchwiliad Is-Bwyllgor UE Polisïau Cymdeithasol a Diogelu Defnyddwyr Tŷ'r Arglwyddi y dylai pob rheolydd gofal iechyd proffesiynol gael yr hawl i sicrhau galluedd ieithyddol gweithwyr proffesiynol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Ar hyn o bryd, nid oes gennym yr hawl i brofi galluedd ieithyddol darpar aelodau o'r AEE.

Yn Ebrill 2012, cyhoeddodd Adran Iechyd Lloegr drefniadau profi iaith mwy trylwyr i feddygon. Credwn y dylai darpariaethau tebyg fod yn eu lle ar gyfer fferylliaeth. Mae cyfathrebu clir ac effeithiol yn hanfodol i iechyd a lles cleifion a'r cyhoedd.

Byddwn yn parhau i leisio barn ar y mater hwn a dylanwadu ar unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu bolisi yn y maes hwn.

Gwersi a ddysgwyd



Ymgeiswyr yn disgwyl dechrau'r asesiad ym Medi 2012

Asesiad cofrestru

Cododd nifer o faterion yn sgil asesiad cofrestru Mehefin 2012, yn cychwyn yn hwyr mewn dau leoliad ac oedi wrth brosesu ymgeiswyr wrth iddynt gyrraedd y neuaddau asesu i gofrestru.

Yn asesiad mis Medi, bachwyd ar y cyfle i adolygu'n prosesau a daethpwyd ag ymgynghorwyr annibynnol i mewn i arsylwi a gwneud argymhellion.

Gweithiom hefyd gyda Chymdeithas Myfyrwyr Fferyllol Prydain i weld a oedd ein cynlluniau ar gyfer 2012/13 yn debygol o ddiwallu anghenion hyfforddeion presennol.

O ganlyniad rydym ni wedi cynyddu lleoliadau asesu o bump i wyth, rhoi uchafswm o 500 o ymgeiswyr ymhob lleoliad a chynllunio proses newydd i gofrestru ymgeiswyr wrth iddynt gyrraedd. Rydym ni hefyd wedi lleiha'r ffi am fynediad i'r cynllun cyn-gofrestru ac am sefyll yr asesiad cofrestru.

Adnewyddu aelodaeth gofrestredig

Roedd y broses o ofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol i adnewyddu eu haelodaeth yn her eleni.

Wrth i'r dyddiad cau agosáu, gwelsom fod mwy na'r disgwyl heb adnewyddu. Aethom ati i ailgynllunio ein dulliau cyfathrebu, a defnyddio ein cyhoeddiadau a'n gwefan ein hunain, a llythyron ac e-byst, i godi ymwybyddiaeth am y dyddiad cau ym mis Hydref.

Gofynnom hefyd i'n rhanddeiliaid a'r wasg fferyllol i'n helpu drwy annog pobl i adnewyddu erbyn y dyddiad cau.

Daeth llu o geisiadau adnewyddu yn agos i'r dyddiad cau. Yn y pendraw, dilëwyd 2.5 y cant o'r aelodau ar 31 Rhagfyr 2011 am iddynt beidio ag adnewyddu eu haelodaeth.

Edrych tua'r dyfodol

Ailddilysu

Rydym ni wedi dechrau ar gynlluniau i gyflwyno ailddilysu, sef proses o gael sicrwydd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn parhau'n gymwys i ymarfer.

Wrth ddatblygu'r gwaith hwn rydym ni wedi cwrdd â rhanddeiliaid, adolygu tystiolaeth ac edrych ar yr heriau a wynebir gan broffesiynau iechyd eraill sydd wedi ceisio cyflwyno dulliau ailddilysu.

Nid ydym am i'r ailddilysu fod yn broses haniaethol o wybodaeth a sgiliau, a dydyn ni ddim chwaith o'r farn y bydd un system yn addas i bawb. Rydym ni am ddatblygu dulliau gwahanol yn dibynnu ar y math o fferylliaeth sy'n cael ei ymarfer.

Rydym ni wedi cytuno ar ddiffiniad o ailddilysgu (gweler y blwch) ac mae gennym rhaglen waith wedi ei chynllunio ar gyfer 2012/13 i ddatblygu'r model hwn yn bellach. Nid ydym yn disgwyl cyflwyno ailddilysgu cyn 2014/15.

AILDDILYSU:
Y broses a ddefnyddir i sicrhau bod aelodau cofrestredig yn dal yn addas i ymarfer ac mewn ffordd sydd â'r ymdrech i gefnogi a gwella ymarfer proffesiynol yn brif nod iddi.

Adolygiad Comisiwn y Gyfraith ar reoleiddio

Ym Mawrth 2012, dechreuodd Comisiwn y Gyfraith ymgynghoriad ffurfiol ar reoleiddio gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, yn cynnig rhoi un Ddeddf Seneddol yn lle'r casgliad cymhleth o ddeddfau a threfniadau sy'n weithredol ar hyn o bryd, er mwyn gwella fframwaith cyfreithiol y naw rheolydd.

Diben y gwaith hwn yw galluogi rheolyddion fel ni i fabwysiadu ein dulliau ein hunain o reoleiddio, wedi eu llywio gan amgylchiadau ac adnoddau perthnasol.

Gweithiom ni'n agos gyda Chomisiwn y Gyfraith wrth iddynt ddatblygu eu cynigion ac mae'r budd a ddaeth o'r cydweithio hwnnw i'w gweld yn glir yn y cynigion terfynol.

Rydym ni wedi cyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, y gellir ei ddarllen yn:
www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/Law%20Commission%20GPhC%20response%20FINAL%20v2%203.pdf

Adroddiad Addasrwydd Ymarfer Blynyddol

Mae proffesiynoldeb y gweithwyr ar ein cofrestr o bwys mawr i ni. Pan fynegir pryderon difrifol am eu hymddygiad, ein tîm addasrwydd ymarfer (AY) fel arfer yw'r ffordd briodol a mwyaf cymesur i ddelio gyda'r pryderon.

Beth yw addasrwydd ymarfer?

Ystyr addasrwydd ymarfer i ni yw addasrwydd person i fod ar ein cofrestr heb gyfyngiadau. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cynnal safonau hyfedredd priodol, bod mewn iechyd da ac â chymeriad da, a chadw at egwyddorion arfer da fel y disgrifir nhw yn ein safonau a chanllawiau, a chynghorion ymarfer gorau eraill.

Mae delio yn effeithiol gyda phryderon addasrwydd ymarfer wrth galon ein hymrwymiad i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd, a chynnal ffydd y cyhoedd mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Os ydych chi'n gofidio nad yw gweithiwr fferyllol proffesiynol (fferyllydd neu dechnegydd fferyllol) yn addas i ymarfer, gallwch gwyno'n ffurfiol i ni.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch hynny, ewch i www.pharmacyregulation.org/raising-concerns/raising-concerns-about-pharmacy-professional neu rhowch ganiad i'n canolfan cyswllt cwsmeriaid 020 3365 3400.

Sut ydyn ni'n clywed am y pryderon hyn?

Maen nhw'n dod gan:

- aelod o'r cyhoedd (daeth 47 y cant o bryderon gan y cyhoedd eleni)
- cyrff cyhoeddus fel sefydliadau'r GIG
- asiantaethau gorfodi'r gyfraith fel yr heddlu neu awdurdodau lleol
- cydweithiwr/wyr i'r aelod cofrestredig
- un o'n harolygwyr ein hunain, yn sgil arolygiad.

Rydym ni hefyd yn delio gyda chwynion am leoliadau fferyllol cofrestredig pan fo pryderon a ydynt yn cyrraedd ein safonau.

Delio gyda phryderon

Mae un o'n rheolwyr achos yn adolygu'r gofid a fynegwyd i gychwyn, ac mae'n argymell pa gam i'w gymryd nesaf. Mae'r rheolwyr achos yn aelodau o'r tîm ymchwilio a rheoli achosion (tîm ymch). Gallai'r cam hwn gynnwys cyfeirio'r mater at bwyllgor ymchwilio, sy'n cwrdd yn breifat. Mae'r pwyllgor ymchwilio yn ystyried a oes tebygolrwydd go iawn y bydd y pwyllgor Addasrwydd Ymarfer (PAY) yn canfod bod nad ar addasrwydd aelod cofrestredig i ymarfer. Gall y pwyllgor ymchwilio gau mater neu gyflwyno llythyr o gyngor, neu gyfeirio'r achos at wrandawiad pwyllgor addasrwydd ymarfer, a gynhelir gan banel annibynnol, gyda thri aelod fel arfer. Mae adroddiad blynyddol 2011/12 y pwyllgor ymchwilio ar gael yma: www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/June%202012%20Council%20Investigating%20Committee%20annual%20report%20for%20June%202012%20Council.pdf

Gall y cofrestrydd hefyd gyfeirio achos yn uniongyrchol at y pwyllgor addasrwydd ymarfer i ystyried creu gorchymyn dros dro, yn gwahardd aelodaeth dros dro neu osod amodau ar aelodaeth, tra bo'r mater yn cael ei ymchwilio. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, mewn achos pan fo'r heddlu yn ymchwilio gan yr heddlu neu wedi derbyn euogfarn am drosedd.

Mae'r Uchel Lys wedi datgan nad cosbi ymddygiad y gorffennol yw nod addasrwydd ymarfer. Y bwriad gennym ni, yn hytrach, yw ystyried a oes nam ar addasrwydd aelod i gofrestru yn y presennol.

Adroddiad Blynyddol

Addasrwydd Ymarfer 2011/12

Ein llwyddiannau

Derbyniwyd 777 o gwynion am addasrwydd ymarfer gennym yn 2011/12. Adolygwyd y cwynion hyn i gyd a chaewyd 254 ohonynt ar y cam cychwynnol hwn am nad oeddent o fewn ein hawdurdod i'w datrys.

Mae'r tabl isod yn dangos sut caewyd yr achosion, ym amrywio o anfon llythyrau o gyngor, gosod amodau ar aelodau cofrestredig, rhoi rhybudd, eu gwahardd dros dro neu'n barhaol o'r gofrestr.

Math o derfyn ar achos	Nifer achosion
Dileu	10
Gwahardd dros dro	45
Rhybudd (PAY 18, PY 70)	88
Amodau	15
Ymrwymiadau	3
Llythyrau o gyngor (PY 42, tîm ymch 229)	253

Mae nifer a achosion a ddaeth i law yn 2011/12 yn dal heb eu datrys. Gosodom darged uchelgeisiol i'n hunain eleni o ddod â phob achos i ben o fewn 15 mis o'i dderbyn. Er na chyrhaeddom ni'r darged hon yn 2011/12, llwyddwyd i leihau'r achosion oedd heb eu datrys yn sylweddol. Cafodd ein cronfa ddata ei gwella, cyflwynwyd trefniadau monitro achosion newydd a threialwyd proses newydd o ddelio ag achosion, proses y bwriedir ei chyflwyno'n ffurfiol o fis Mai 2012.

Delir ag achosion a etifeddwyd oddi wrth y rheolydd blaenorol mewn ffordd wahanol gan y CFfC. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n egluro'n swyddogaethau a grymoedd yn caniatáu i ni ddelio gydag achosion a etifeddwyd mewn ffordd fwy blaengar. Mae rhai o'r gwersi a ddysgwyd gennym dros y flwyddyn o gymorth i'n dulliau addasrwydd ymarfer yn gyffredinol. Mae'r broses o ddelio gydag achosion a etifeddwyd erbyn Medi 2012 yn mynd yn ei blaen yn unol â'r disgwyl.

	Nifer achosion
Achosion a etifeddwyd o'r rheolydd blaenorol	589
Achosion y deliwyd â nhw, fel y mae ar 31 Mawrth 2012	519

Rydym ni wedi lleihau'r nifer o achosion heb eu datrys (CFfC a rhai a etifeddwyd) gan 30 y cant ers i ni gychwyn fel y rheolydd. Rydym ni wedi gweithio'n galed iawn i symleiddio'r prosesau addasrwydd ymarfer a gwneud hynny mewn ffordd mor gymesur â phosibl. O ganlyniad, rydym ni wedi lleihau hyd pwyllgorau addasrwydd ymarfer o dri diwrnod i ddau ar gyfartaledd.

Rydym ni hefyd wedi arbed ychydig dros £2 filiwn drwy arbedion effeithiolrwydd drwy ddelio gydag achosion mewn ffordd fwy cymesur a thrwy newid y ffordd a reolir gwasanaethau cyfreithiol.

Gwersi i'w dysgu o'n hachosion addasrwydd ymarfer

Rydym ni'n cynnwys astudiaethau achos o'n gwaith addasrwydd ymarfer yn *Regula+e*, ein cylchgrawn i aelodau cofrestredig.

Mae'r astudiaethau achos hyn yn cynnwys 'gwersi i'w dysgu', sy'n gyfle i'n haelodau cofrestredig i ddeall y penderfyniadau a wneir gan ein hymchwilwyr a'n pwyllgorau. Drwy rannu gwersi, ein bwriad yw cynnal ymarfer diogel ac effeithiol, hybu proffesiynoldeb a lleihau'r nifer o gwynion a geir.



Holwyd darllenwyr *Regula+e* yn ystod y flwyddyn a dywedodd dros 80 y cant y byddent yn hoffi hyd yn oed mwy o wybodaeth am wersi i'w dysgu ac achosion addasrwydd ymarfer. At y diben hwnnw, byddwn ni'n lansio teclyn ar-lein newydd yn 2012/13.

Sut mae darganfod beth sy'n digwydd

Cynhelir gwrandawiadau addasrwydd ymarfer yn gyhoeddus fel arfer ac mae croeso i'r cyhoedd fynychu. Cynhelir gwrandawiadau yn ein swyddfeydd yn 129 Lambeth Road, Llundain SE1 7BT. Cyhoeddir manylion am wrandawiadau sydd ar y gweill yn www.pharmacyregulation.org/raising-concerns/hearings/hearings-schedule

Cynhelir rhai gwrandawiadau addasrwydd ymarfer yn breifat, os oes materion yn ymwneud ag iechyd aelod cofrestredig, er enghraifft.

Rydym ni'n cyhoeddi penderfyniadau'r pwyllgor addasrwydd ymarfer ar y gofrestr yn www.pharmacyregulation.org/search/search_decisions

Cyfnewid gwybodaeth addasrwydd ymarfer ar hyd a lled Ewrop

Rydym ni wedi bod yn galw am fecanwaith gwydn i gyfnewid gwybodaeth addasrwydd ymarfer ar hyd a lled Ewrop.

Os na rennir gwybodaeth o'r fath mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, gellid cael sefyllfa lle mae aelod wedi ei ddileu neu ei wahardd mewn un wlad tra'n dal i ymarfer mewn gwlad arall.

Gallai hynny beryglu cleifion a'r cyhoedd, a thanseilio ffydd y cyhoedd yn y system gofrestru.

Ein hanghenion adrodd

Mae'r Gorchymyn Fferylliaeth yn gosod rheidrwydd ar y CFfC i adrodd, i ddangos ein hatebolrwydd i'r senedd. O dan y Gorchymyn mae'n orfodol arnom i gyhoeddi adroddiadau a chyfrifon blynyddol a'r cyflwyno i'r Cyfrin Gyngor i'w rhoi gerbron Senedd y Du a Senedd yr Alban.

Mae'n ofynnol arnom i gyhoeddi:

- adroddiad blynyddol ar weithredu'n swyddogaethau, yn cynnwys disgrifiad o'n trefniadau sicrhau arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth
- adroddiad ystadegol yn dangos effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trefniadau sydd yn eu lle i ddiogelu'r cyhoedd rhag aelodau cofrestredig y mae nam ar eu haddasrwydd ymarfer, ynghyd â sylwadau'r Cyngor ar yr adroddiad
- cyfrifon blynyddol, ar ffurf o ddewis y Cyfrin Gyngor
- adroddiad ein harchwilwyr allanol ar ein cyfrifon.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â'r gofynion uchod.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi cyhoeddi'r anghenion cyfrifo y mae gofyn i ni eu hateb wrth baratoi ein cyfrifon blynyddol. Mae'r cyhoeddiad hwn gan y Cyfrin Gyngor i'w weld yn atodiad 1 ein datganiad ariannol (tudalen 49). Mae ein cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r cyhoeddiad hwn.

Fel corff a ariennir gan ffioedd aelodau ac sydd yn annibynnol ar lywodraeth, nid yw canllawiau'r Trysorlys ar *Reoli Arian Cyhoeddus* yn berthnasol i ni. Rydym ni am ddefnyddio arfer gorau o ran tryloywder ac wrth gyfathrebu a'r cyhoedd, sef ein prif randdeiliaid. Rydym ni felly yn anelu at gadw'n hadroddiad mor glir a syml â phosibl, heb or-ddweud gormodol.

Yn rhan o arfer gorau, rydym ni wedi darparu datganiad ar reolaeth fewnol (tudalen 29) yn disgrifio'r systemau sy'n bodoli i gefnogi strategaethau ac amcanion y cyngor tra'n diogelu asedau'r sefydliad. Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys adolygiad y prif weithredwr ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol (tudalen 29).

Mae gwybodaeth am ddulliau llywodraethu'r CFfC isod.

Llywodraethu ein hunain

Mae gan gyngor y CFfC 14 o aelodau, a dyma gorff llywodraethu'r CFfC. Y Cyngor hwn sy'n gosod cyfeiriad strategol a nodau ac amcanion y sefydliad, yn unol â'i ddiben statudol. Mae'n monitro perfformiad y sefydliad ac iddo y mae gweithrediaeth y sefydliad yn atebol. Mae'n sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n onest ac mae'n diogelu asedion y sefydliad.

Y Cyfrin Gyngor sy'n apwyntio'r 14 aelod sydd ar gyngor y CFfC, ac mae'n cynnwys yr un nifer o aelodau lleyg ag o aelodau cofrestredig. Mae'n cynnwys o leiaf un aelod sy'n byw neu'n gweithio yn gyfan gwbl neu'n rhannol ym mhob un o wledydd Cymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'r cyngor wedi penderfynu ar strwythur tâl a threuliau i'w aelodau. Mae'n adlewyrchu safonau bywyd cyhoeddus Nolan ac yn osgoi argymhelliad i lywodraeth dda dros y corff.

Llywodraethu ein hunain

Tâl a chostau aelodau'r Cyngor Ebrill 2011/Mawrth2012

Enw	Aelod neu leyg	Tâl[1] £	Cyfanswm treuliau £	Presenoldeb[2]	Cyfarfodydd gynhaliwyd/ fynychwyd
Bob Nicholls	Lleyg	48,000	5,992	6/6	PwyllTâl 2/2
Cathryn Brown	Fferyllydd	12,000	2,595	5/6	PAaR 2/3
Sarah Brown	Lleyg	12,000	301	6/6	
Celia Davies (o Fehefin 2011)	Lleyg	12,000	1,204	6/6	PwyllTâl 1/1
Soraya Dhillon	Fferyllydd	12,000	375	5/6	
Gordon Dykes (o Fedi 2011)	Fferyllydd	7,000	4,790	4/4	
John Flook[3]	Lleyg	14,000	2,349	5/6	PAaR 3/3
Tina Funnell	Lleyg	12,000	2,190	6/6	
Kirstie Hepburn (tan Fehefin 2011)	Fferyllydd	5,000	315	1/2	PwyllTâl 0/1
Ray Jobling	Lleyg	12,000	981	5/6	
Liz Kay[4]	Fferyllydd	14,000	2,656	6/6	PwyllTâl 2/2
Lesley Morgan	Technegydd Fferyllol	12,000	1,514	4/6	PwyllTâl 2/2
Keith Wilson	Fferyllydd	12,000	694	5/6	PAaR3/3
Peter Wilson	Fferyllydd	12,000	529	6/6	
Judy Worthington	Lleyg	12,000	2,626	6/6	PAaR 2/3

Allwedd
PAaR = Pwyllgor Archwilio a Risg
PwyllTâl = Pwyllgor Tâl

[1] Gros wedi ei ddatgelu yw tâl aelodau'r cyngor. Mae treuliau aelodau'r cyngor o dan Drefniant PAYE gyda Thollau ei Mawrhydi.
[2] Mae'r ffigurau presenoldeb yn ymwneud yn unig a chyfarfodydd ffurfiol y cyngor a phwyllgorau. Mae'n rhaid i bob aelod o'r cyngor fynychu digwyddiadau eraill megis diwrnodau strategaeth, gweithdai anffurfiol cyfarfodydd rhanddeiliad, ac nid ydynt yn derbyn tâl ychwanegol am y rhain.
[3] £2,000 tâl ychwanegol am gadeirio'r pwyllgor archwilio a risgiau.
[4] £2,000 tâl ychwanegol am gadeirio'r pwyllgor tâl

Pwyllgorau'r CFfC

Mae'r brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu gweithrediad y CFfC, Gorchymyn Fferyllol 2010, yn darparu ar gyfer tri phwyllgor: ymchwilio, addasrwydd ymarfer ac apeliadau.

- **Y Pwyllgor Ymchwilio**
  Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried materion yn ymwneud ag addasrwydd ymarfer aelod cofrestredig neu addasrwydd person i gynnal busnes fferyllol cymunedol. Mae'r pwyllgor yn penderfynu a ddylid cyfeirio achos at y pwyllgor addasrwydd ymarfer am wrandawiad llawn.

- **Y Pwyllgor addasrwydd ymarfer**
  Mae'r pwyllgor hwn yn penderfynu a yw addasrwydd aelod i ymarfer wedi ei niweidio gan ffactorau'n ymwneud ag ymddygiad, perfformiad proffesiynol neu iechyd, ac a ddylid diarddel aelod o'r gofrestr ac felly dirymu ei hawl i weithredu busnes fferyllol.

- **Y Pwyllgor apeliadau**
  Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried apeliadau mewn perthynas â materion cofrestru ac addysg.

Mae'r cyngor wedi penderfynu na ddylid cael gormod o bwyllgorau anstatudol ychwanegol, er mwyn lleihau biwrocratiaeth a sicrhau eglurder ynghylch dyletswyddau. Mae gan y CFfC dri bwyllgor anstatudol (archwilio a risg, tâl ac apwyntiadau).

Y Pwyllgor archwilio a risg

Mae'r pwyllgor hwn yn cefnogi'r cyngor drwy adolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol. Mae hefyd yn monitro trefniadau rheoli risgiau ac yn estyn cyngor ar ymhlygiadau unrhyw sicrwydd a gynigir yn nhermau risg a rheolaeth. Mae pedwar aelod cyngor ar y pwyllgor hwn, yn cynnwys y cadeirydd John Flook, ac aelod allanol, Hilary Daniels.

Mae'r pwyllgor yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn y gwaith o roi sicrwydd i'r cyngor ar faterion rheoli risg, ac yn canolbwyntio ar risgiau wrth gyflawni nodau ac amcanion strategol y CFfC. Mae'r pwyllgor wedi adolygu'r gofrestr risgiau ymhob cyfarfod ac mae ei adolygiadau wedi llywio gwaith y cyngor yn craffu ar adroddiadau'r prif weithredwr a chofrestrydd ar reoli risgiau. Mae'r Cyngor yn ystyried bod y trefniadau sydd yn eu lle i reoli risgiau yn gweithredu'n effeithiol i roi sicrwydd bod risgiau yn cael eu canfod a'u rheoli.

Yn sgil gweithredu'r Ddeddf Llwgrwobrwyo, cytunodd y pwyllgor ar ddatganiad gwrth-lwgrwobrwyo, yn dod â gweithdrefnau'r CFfC i rwystro llwgrwobrwyo a llygredigaeth ynghyd. Mae hwn wedi ei dderbyn a'i gymeradwyo gan y cyngor a'i ymgorffori yn fframwaith llywodraeth a sicrwydd y cyngor.

Mae archwilio mewnol yn rhan bwysig o ddulliau rheoli mewnol y CFfC. Cymeradwyodd y pwyllgor y cynllun archwilio mewnol am y flwyddyn ac adolygu cynnydd y cynllun ymhob cyfarfod, gan adolygu'r adroddiadau archwilio mewnol a'r gweithredodd a gymerodd y rheolwyr yn sgil canfyddiadau'r archwiliad.

Mae'r pwyllgor hefyd wedi cymeradwyo'r cynllun archwilio allanol ac wedi adolygu'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, cyn eu hargymell i'r cyngor i'w cymeradwyo.

Pwyllgor Tâl

Mae'r pŵer i gymeradwyo neu wrthod fframwaith tâl staff y CFfC a phecyn tâl y prif weithredwr a chyfarwyddwyr wedi ei ddirprwyo i'r pwyllgor hwn. Mae hefyd yn cynghori'r cyngor ar dâl aelodau'r cyngor a grwpiau eraill nad ydynt wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan y CFfC. Mae pedwar aelod cyngor ar y pwyllgor hwn, yn cynnwys y cadeirydd Liz Kay, ac aelod allanol, David Prince.

Llywodraethu ein hunain

Pwyllgor apwyntiadau

Y pwyllgor hwn sy'n gyfrifol am ddewis ac apwyntio aelodau'r pwyllgorau statudol. Mae hefyd yn goruchwylio trefniadau i'w hyfforddi ac adolygu eu perfformiad.

Mae'r pwyllgor hwn yn atebol i'r cyngor ond nid oes aelodau o'r cyngor ymhlith ei aelodau. Fe'i cadeirir gan gadeirydd annibynnol, Elizabeth Filkin. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod swyddogaethau'r cyngor ar wahân i swyddogaethau'r pwyllgorau statudol.

Y Prif weithredwr a chofrestrydd a chyfarwyddwyr

Pennaeth staff y CFfC yw'r prif weithredwr a chofrestrydd ac mae tair cyfarwyddiaeth i'r strwythur staffio:

Gwasanaethau Rheoleiddio
Hilary Lloyd, cyfarwyddwr
Adnoddau a Datblygiad Corfforaethol
Bernard Kelly, cyfarwyddwr
Polisi a Chyfathrebu
Hugh Simpson, cyfarwyddwr.

Mae mwy o wybodaeth ar www.pharmacyregulation.org/about-us/who-we-are/organisation

Anghenion Adrodd

Mae'n ofynnol ar i'r CFfC, dan Orchymyn Fferylliaeth 2010, baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Rhaid i ni baratoi cyfrifon am bob blwyddyn yn unol ag egwyddorion cyfrifo y DU a'r anghenion datgelu a nodir yn y Safonau Cyfrifo A Dderbynnir yn Gyffredinol (GAAS). Rhaid i'r cyfrifon gael eu paratoi mewn ffordd sy'n rhoi gwir adlewyrchiad o gyflwr y sefydliad ac o'i wariant a'i incwm, enillion a cholledion a llif arian y flwyddyn ariannol.

Ein hymateb i gwynion ac adborth

Derbyniom 292 o gwynion am ein gwasanaethau yn 2011/12. Roedd rhai o'r cwynion yn cynnwys mwy nag un mater, felly rydym wedi eu rhannu'n themâu a'u cofnodi yn y tabl (isod)).

Mater	Cyfanswm
Asesiad cofrestru	116
Polisi/gweithdrefn CFfC	72
Ansawdd cyfathrebu/gwybodaeth	45
Ymddygiad staff	16
Ffioedd	14
Canlyniad/penderfyniad CFfC	11
Oedi	10
Colli gwybodaeth/dogfennaeth	7
Diffyg ymateb	7
Safonau CFfC	6
Delio gyda chwynion (h.y. cwynion yn erbyn aelodau cofrestredig)	5
Arall	4
Cywirdeb gwybodaeth a gofnodwyd	2
Cydraddoldeb ac amrywiaeth	2
Diogelwch gwybodaeth	1

Yn 2011/12, materion yn ymwneud ag asesiadau cofrestru Mehefin 2011 oedd y categori mwyaf o gwynion. Adolygwyd y broses asesu a chyfathrebu gennym, a chyflogwyd Deloitte i adolygu'r broses cofrestru ymgeiswyr yn asesiad mis Medi yn Llundain. Rydym ni wedi gweithredu ar eu hargymhellion a'r gwersi a ddysgwyd gennym o'n hadolygiad ninnau.

Cydymffurfio gyda deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a diogelu data

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn sicrhau y gall unrhyw un weld cofnodion y CFfC. Mae gwybodaeth am sut i wneud hyn yn www.pharmacyregulation.org/freedom-information

Mae ein cynllun cyhoeddiadau - y cynllun cyhoeddiadau model a wnaed yn 2009 ac a gymeradwywyd gan Gomisiynydd Gwybodaeth y rheolyddion iechyd i gyd - yn ein hymrwymo at gyhoeddi gwybodaeth fel mater o drefn.

Fel rheolwr data cofrestredig dan Ddeddf Diogelu Data 1998, rydym ni'n casglu, storio a defnyddio data personol. Defnyddir hyn i ddiweddaru'r gofrestr, er enghraifft, a phrosesu cwynion, casglu ystadegau a rhoi gwybodaeth am y CFfC i randddeiliaid.

I ddiogelu'r cyhoedd, gwella gwasanaethau cwsmer ac ymateb i anghenion statudol, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu data gyda sefydliadau eraill sydd â diddordeb cyfreithlon, ond ddim ond wrth gyflawni ein gwaith a'n dyletswyddau statudol, tra'n parchu cyfrinachedd. Mae mwy o wybodaeth am y ffordd y defnyddiwn data personol, yn cynnwys trefniadau rhannu gwybodaeth rhyngom ni a sefydliadau eraill, ar www.pharmacyregulation.org/privacy-policy

Nododd ein proses asesu a rheoli risgiau ddiogelwch gwybodaeth fel maes â risgiau ynddi, a bod angen mwy o waith ar ein prosesau. Rydym ni'n bwriadu gweithredu system TG newydd ac effeithlon yn 2012/13 i gefnogi amcanion, nodau a pherfformiad y sefydliad. Fel rhan o'n hymrwymiad parhaol i ddiogelu gwybodaeth, byddwn yn defnyddio'r project hwn fel cyfle i wella ein polisïau a gweithdrefnau diogelwch gwybodaeth yn bellach.

Datganiad ar reolaeth fewnol

gan y prif weithredwr a chofrestrydd

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel prif weithredwr a chofrestrydd, rydw i'n atebol i'r cyngor am gynnal system wydn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi strategaeth ac amcanion y cyngor tra'n diogelu asedau'r CFfC.

Diben y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi ei chynllunio i reoli risg i lefel resymol, nid i ddileu pob risg. Gall, felly, roi sicrwydd rhesymol ond nid llwyr. Mae system rheolaeth fewnol y CFfC yn cynnwys trefniadau sydd wedi eu gwreiddio yn ein prosesau i nodi, asesu a rheoli risgiau wrth i ni geisio cyflawni ein nodau ac amcanion strategol.

Y Fframwaith risg a rheolaeth fewnol

Mae lefelau o ansicrwydd yn rhan annatod o ymdrechion pob sefydliad i gyflawni ei amcanion, ac mae hyn yn gallu bod yn fygythiad i lwyddiant y broses o gyflawni amcanion. Ansicrwydd ynghylch canlyniadau yw risg yn ei hanfod. Ystyr rheoli risg yw nodi, asesu a blaenoriaethu risgiau, cyn defnyddio adnoddau mewn ffordd gymesur, ac o dan reolaeth, i leihau, monitro a rheoli tebygolrwydd a/neu effaith digwyddiadau anffodus, er mwyn sicrhau y gobaith mwyaf o lwyddiant.

Mae'r cyngor yn atebol am fodolaeth system effeithiol o reolaeth fewnol dros risgiau. mae'r cyngor wedi dirprwyo'r gwaith o oruchwylio hyn i'r pwyllgor archwilio a risgiau. Mae'r pwyllgor yn cynghori'r cyngor ar ddibynadwyedd reolaeth fewnol a sicrwydd o ran risgiau a rheolaeth. Mae'r pwyllgor o'r farn bod y trefniadau sydd yn eu lle i reoli risgiau yn gweithredu'n effeithiol ac yn rhoi sicrwydd bod risgiau yn cael eu canfod a'u rheoli.

Rydw i'n adrodd i'r cyngor ar reolaeth risgiau o fewn y CFfC drwy adolygiad strategol cyson ar risg, wedi ei lywio gan adolygiad diweddaraf y pwyllgor archwilio a risg ar reolaeth risgiau. Nod y broses yw gwreiddio rheolaeth risg ar bob lefel o fewn y sefydliad.

Mae rhaglen o archwiliadau mewnol yn ei lle, i ddarparu mwy o sicrwydd ar faterion rheolaeth fewnol. Cyflwynir adroddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol i'r pwyllgor archwilio a risg, sydd yn adolygu canfyddiadau'r archwiliadau ac ymatebion y rheolwyr iddynt.

Mae adnoddau dadansoddi busnes yn parhau i gefnogi'r sefydliad wrth adolygu ei brosesau a chanfod meysydd y gellid o bosibl eu gwella. Mae gweithdrefn rheoli newid drafft yn cael ei threialu. Disgwylir y bydd proses rheoli newid mwy gwydn o ran seilwaith TG yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r drefn newydd o gael darparwr TG allanol.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel prif weithredwr a chofrestrydd, mae'n gyfrifoldeb arnaf i i adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad yn cael ei lywio gan yr archwilwyr mewnol, y rheolwyr sy'n datblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn ei hadroddiadau ar reolwyr.

Mae'r cyngor wedi apwyntio Deloitte LLP fel ein harchwilwyr mewnol. Roedd yr adroddiadau mewnol a ystyriwyd gan y pwyllgor archwilio a risgiau dros y cyfnod hwn yn ymwneud â:

Chaffael
Rheoli rhaglenni
Llywodraethu corfforaethol
Rheolau cyllidol craidd
Fframwaith cofrestr
Rheoli cyffuriau a reolir
Addasrwydd ymarfer
Achosion a etifeddwyd
Rheolau TG cyffredinol
Achredu ysgolion fferyllol
Asesu cofrestriadau
Adnoddau dynol

Yn seiliedig ar yr adroddiadau archwilio mewnol a restrir uchod, mae ein harchwilwyr mewnol wedi asesu trefniadau llywodraethu, rheoli risgiau a phrosesau rheoli mewnol y CFfC fel rhai digonol ac effeithiol, heblaw am mewn meysydd penodol yn ymwneud ag asesu cofrestriadau, y fframwaith cofrestru, achosion a etifeddwyd a rheolaeth TG gyffredinol pan aseswyd mai cyfyngedig oedd y lefel sicrwydd. Mae gweithredoedd wedi eu cymryd neu ar y gweill gan reolwyr i weithredu newidiadau yn sgil argymhellion yr archwiliadau. O ran rheolaeth TG, mae rhai o'r newidiadau hyn yn gysylltiedig â'r newid i ddarparwr TG allanol.

Mae'r archwiliad mewnol am y flwyddyn nesaf yn cael ei ystyried gan y pwyllgor archwilio a risgiau pob mis Chwefror ac adolygir adroddiad cynnydd ymhob cyfarfod pwyllgor.

Ar sail y ffynonellau sydd ar gael i fi, yn cynnwys fy ngwybodaeth am y gweithgareddau rheoli risgiau a weithredir, y farn a gafwyd gan yr archwilwyr allanol a'r sicrwydd rheoli sydd ar gael i fi, rydw i'n hyderus bod:

- trefniadau llywodraethu a phrosesau rheoli'r CFfC wedi bod yn ddigonol ac yn effeithiol yn gyffredinol, heblaw am mewn meysydd penodol lle mae'r sicrwydd yn gyfyngedig ac mae gweithredoedd rheoli wedi eu cytuno a'r hadrodd i'r pwyllgor archwilio a risgiau; a bod

- y broses rheoli risgiau sydd yn ei lle wedi bod yn ddigonol i'r CFfC ac y bydd yn parhau i gael ei datblygu fel rhan ganolog o drefn weithio'r sefydliad.

Duncan Rudkin
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
14 Mehefin 2012

Datganiadau ariannol

am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2012

Prif ffigurau ac ymgynghorwyr proffesiynol

Aelodau'r cyngor
Bob Nicholls (cadeirydd)
Cathryn Brown
Sarah Brown
Celia Davies
Soraya Dhillon
Gordon Dykes (ers Medi 2011)
John Flook
Tina Funnell
Kirstie Hepburn (tan Mehefin 2011)
Ray Jobling
Liz Kay
Lesley Morgan
Keith Wilson
Peter Wilson
Judy Worthington

Prif Weithredwr a Chofrestrydd
Duncan Rudkin

Prif swyddfa
129 Lambeth Road
Llundain SE1 7BT

Archwilwyr allanol
Grant Thornton UK LLP
Grant Thornton House
Melton Street
Euston Square
Llundain NW1 2EP

Archwilwyr mewnol
Deloitte LLP
2 New Street Square
Llundain EC4A 3BZ

Cyfreithwyr
Capsticks LLP
1 St George's Road
Llundain SW19 4DR

Bancwyr
NatWest Bank plc
91 Westminster Bridge Road
Llundain SE1 7HW

Adroddiad y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Mae'r cyngor yn cyflwyno datganiadau blynyddol y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC), wedi eu harchwilio, am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2012.

Y CFfC yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol ym Mhrydain fawr. Ein gwaith ni yw diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Llywodraethu

Cafodd y CFfC statws cyfreithiol ar 12 Mawrth 2010 fel y rheolydd cysgodol dros fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol ym Mhrydain Fawr a chychwynnodd reoleiddio'n llawn ac yn ffurfiol yn lle Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr (RPS).

Pwyllgorau'r CFfC

Mae Gorchymyn Fferyllol 2010 yn darparu ar gyfer tri phwyllgor statudol: ymchwilio; addasrwydd ymarfer, ac apeliadau. Mae gan y CFfC dri phwyllgor anstatudol.

Mae'r **pwyllgor archwilio a risgiau** yn cefnogi gwaith y CFfC drwy adolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol, a chynghori'r cyngor ar weithrediad y sicrwydd sydd ar gael parthed risgiau a rheolaeth. Wedi ei gadeirio gan John Flook, mae'n cynghori'r cyngor ar ymhlygiadau sicrwydd ynghylch risgiau a rheoli. Mae gan y pwyllgor hefyd aelod annibynnol, Hilary Daniels.

Cyfarfu'r pwyllgor archwilio a risgiau dair gwaith yn ystod y flwyddyn, ym Mai 2011, Hydref 2011 a Chwefror 2012.

Cynhaliwyd archwiliadau ar y materion canlynol, a'u hadolygu gan y pwyllgor, yn ystod y flwyddyn ariannol:

Caffael, rheoli rhaglenni, project achosion a etifeddwyd, rheolau TG cyffredinol, llywodraethu corfforaethol, rheolau ariannol craidd, fframwaith cofrestru, rheoli cyffuriau a reolir, achredu ysgolion fferyllol, addasrwydd ymarfer, asesu cofrestriadau ac adnoddau dynol.

Mae'r gofrestr risgiau yn cael ei chyhoeddi a'i monitro gan y prif weithredwr; adolygir y gofrestr risg ymhob cyfarfod pwyllgor. Roedd gwaith arall a wnaed yn cynnwys argymell yr adolygiad blynyddol 2010/11 i'r cyngor. Cytunodd y pwyllgor ar ddatganiad gwrth-lwgrwobrwyo ac adolygwyd y polisi ar fynegi pryderon.

Mae swyddogaeth archwiliad mewnol y CFfC yn hynod o bwysig fel rhan o'n strategaeth rheoli risgiau. Yn ystod blwyddyn ariannol 2010/11 gwnaed 74 diwrnod o archwilio gan ein harchwilwyr mewnol; yn 2011/12 cododd hyn i 88 diwrnod o waith. Mae'r pwyllgor archwilio a risgiau bellach wedi cytuno ar 98 diwrnod o archwilio ym mlwyddyn ariannol 2012/13. .

Cyfarfu'r **pwyllgor tâl** dair gwaith yn ystod y flwyddyn: Ebrill 2011, Medi 2011 a Mawrth 2012. Wedi ei gadeirio gan Elizabeth Kay, mae'r pwyllgor yn cynghori'r cyngor ar dâl aelodau'r cyngor a grwpiau eraill nad ydynt yn gyflogedig, fel y pwyllgorau statudol. Mae gan y pwyllgor y pŵer i gymeradwyo neu wrthod fframwaith tâl staff a phecyn tâl y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, a chyfarwyddwyr. Mae gan y pwyllgor hefyd aelod annibynnol, David Prince.

Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd tâl aelodau'r cyngor, pwyllgorau statudol a'r pwyllgorau anstatudol, yn ogystal â buddion staff a'r polisi treuliau.

Trafododd y pwyllgor hefyd strwythur graddio newydd i staff y CFfC. Mae hwn ar gyfnod cynnar iawn ac ni fydd yn dod i derfyn tan Mehefin 2012.

Adroddiad y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Mae'r **pwyllgor apwyntiadau** yn gyfrifol am ddewis, recriwtio ac adolygu perfformiad aelodau'r pwyllgorau statudol.

Adolygiad ar weithgareddau busnes

Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012 oedd ein blwyddyn gyflawn gyntaf, ac felly nid yw'n bosibl cymharu gyda ffigurau blaenorol. Roedd datganiadau ariannol y cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2011 yn cynnwys chwe mis o weithgaredd rheoleiddio a chwe mis pan oedd y CFfC yn gweithredu mewn ffordd gysgodol. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd grant gan yr Adran Iechyd yn talu costau'r CFfC.

Effeithlonrwydd

Fel sefydliad ifanc, nid oes gan y CffC waelodlin sefydledig y gellir mesur arbedion effeithlonrwydd yn ei erbyn. Gosodwyd ein cyllidebau cyntaf ar sail modelau a etifeddwyd gan yr RPS, yn enwedig yng nghyd-destun gweithgareddau addasrwydd ymarfer. Roedd cyfanswm y gwariant a gyllidebwyd ar gyfer 2011/12 yn seiliedig ar y gwaith yr oedd Asesiad Effaith y Gorchymyn Fferyllol wedi ei seilio.

O fesur yn erbyn y gyllideb hon, nodwyd nifer helaeth o welliannau effeithiolrwydd. O'r gwasanaethau rheoleiddio y daeth y mwyaf, dros £2 filiwn. Roedd bron hanner hyn yn dod o newid y ffordd yr ydym ni'n cael gwasanaethau cyfreithiol. Aildrafodwyd y ffioedd a delir i gwmnïau cyfreithiol ac arweiniodd hyn ar costau is yn yr achosion hynny a wneir yn allanol.

Lleihawyd hyd gwrandawiadau addasrwydd ymarfer o dri diwrnod i ddau ar gyfartaledd, a chyfarfu'r pwyllgor ymchwilio yn llai aml nad y cyllidwyd ar ei gyfer. Arbedodd hyn dros £300,000.

Rydym ni wedi gwneud gwaith da iawn yn clirio'r achosion a etifeddwyd o'r rheolydd blaenorol. Dechreuodd y flwyddyn gyda 311 o achosion heb eu datrys, 70 oedd y ffigur erbyn diwedd y flwyddyn. Caewyd 47 o'r achosion gan y Grwp penderfynu ar Achosion a Etifeddwyd. Arbedodd hyn £476,000 yn erbyn y gyllideb a roddwyd i ddelio gydag achosion o'r fath.

Arbedodd adran addysg y CFfC £61,000 drwy ddefnyddio adnodd ar-lein yn hytrach na'r testun ymarfer meddyginiaethau.

Cyfarfu'r cyngor yn llai aml nag a gyllidebwyd yn wreiddiol. Helpodd hyn i arbed £224,000 o fewn yr adran cyngor a llywodraethu. Trefnwyd bod unrhyw gyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal naill ai cyn neu ar ôl cyfarfodydd cyngor ffurfiol, gan leihau felly dreuliau teithio a llety. Roedd cost cyngor cyfreithiol wrth ddrafftio'r rheolau y mae'n rhaid i aelodau cofrestredig a fferyllfeydd cofrestredig eu dilyn yn is na'r disgwyl hefyd.

Yn olaf, roedd defnyddio gwefan caffael y llywodraeth yn golygu arbedion sylweddol yng nghostau llungopïo, papurach a gwasanaethau proffesiynol.

Incwm

Cyfanswm ein hincwm am y flwyddyn yw £21.3 miliwn, sef:

£12.4m o incwm o 45,435 o fferyllwyr ar y gofrestr
£3.4m o'r 20,766 o dechnegwyr fferyllol ar y gofrestr, a
£3.4m o'r 13,850 o fferyllfeydd cofrestredig ar y gofrestr.

Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ffioedd adnewyddu blynyddol a ffioedd cofrestru ac ymgeisio o'r newydd. Roedd yr incwm o dechnegwyr fferyllol yn cynnwys £938,000 o ffioedd ymgeisio, oedd yn sylweddol uwch na chyfnodau blaenorol. Roedd nifer uchel i geisiadau am fod y trefniadau pontio wedi dod i ben ym mis Gorffennaf 2011 a daeth yn orfodol i dechnegwyr fferyllol gofrestru.

Nid adlewyrchir holl incwm y flwyddyn gan yr arian ddaeth gan fferyllwyr, technegwyr a lleoliadau fferyllol. Mae incwm yn cael ei gyfrif mewn cyfrifon gydol y flwyddyn gofrestru gyda'r gweddill yn ymddangos ar y gyfriflen fel incwm wedi ei ohirio.

Cyllidwyd rhai o'r costau na fydd yn digwydd eto i'r CFfC gan yr Adran Iechyd gyda grant gwerth £528,000, yn cynnwys llety, TG a'r ymgynghoriad ar foderneiddio rheoleiddio fferyllol.

£969,000 oedd yr incwm a ddaeth o'r asesiad cyn-gofrestru a'r flwyddyn gyn-gofrestru. Safodd 2,850 o fyfyrwyr yr arholiad, ym Mehefin a Medi 2011. Nid oedd incwm o'r gweithgareddau hyn yn gynwysedig yn y cyfrifon blaenorol, gan na throsglwyddwyd cyfrifoldebau rheoleiddio tan ar ôl arholiad yr asesiad ym mis Medi.

£404,000 oedd cyfanswm yr incwm o bob ffynhonnell arall.

Yn Hydref 2011, codwyd ffioedd gan 2 y cant, er bod ffioedd adnewyddu technegwyr fferyllol wedi eu gostwng. Ni chafodd hyn effaith tan fis Ionawr 2012, pan ddechreuodd y cyfnod cofrestru i'r rhan fwyaf o'n haelodau a lleoliadau.

Mae ymgynghoriad yn digwydd ar hyn o bryd i'r cynnig i leihau ffioedd adnewyddu gan 10 y cant i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol. Os cytunir ar hyn, daw i rym ym mis Hydref 2012.

Gwariant

Lansiwyd cylchgrawn deufisol newydd Regula+e ym mis Medi. Mae copi yn cael ei bostio i bob fferyllydd a thechnegydd fferyllol sydd ar ein cofrestr, ac mae hefyd ar gael ar-lein.

Dechreuodd ymgynghoriad ar foderneiddio lleoliadau fferyllol yn gynnar yn Chwefror 2012. Rydym ni wedi holi barn cleifion, aelodau o'r cyhoedd, gweithwyr fferyllol proffesiynol a chyrff cynrychioli ar y safonau sy'n cael eu cynnig, y byddai gofyn i bob fferyllfa gofrestredig drwy Brydain eu cyrraedd.

Ad-drefnwyd yn fewnol yn Hydref 2011, gan wella rheoli ansawdd, marchnata a gwasanaethau cwsmeriaid. Gan ganolbwyntio ar y cwsmer, lansiwyd adran gwasanaethau cwsmer newydd. Mae aelodau'r tîm hwnnw yn delio gyda phob galwad i'r switsfwrdd ac yn gyfrifol am sicrhau bod y gofrestr yn cael ei diweddaru'n rheolaidd.

O ran addysg, roedd costau yn cynnwys rhedeg yr arholiad asesu cyn-gofrestru ym Mehefin a Medi. Fel y dywedwyd gynt, ni chafwyd y costau hyn yn y flwyddyn flaenorol.

Fel rhan o'n gwaith addysg, achredwyd gennym gyrsiau y mae fferyllwyr yn eu dilyn. Roedd cyfnod achredu llawer ohonynt yn digwydd eleni a chododd hefyd y nifer o ddigwyddiadau MFfer, wrth i dair prifysgol gychwyn y broses achredu am y tro cyntaf. Digwyddodd nifer o ddigwyddiadau ailachredu'r MFfer yn ystod blwyddyn academaidd 2011/12 gan i'r rheiny a oedd i'w hailachredu yn 2010/11 gael estyniad o flwyddyn yn sgil cyflwyno safonau addysg newydd.

O'r costau achredu o £621,000, derbyniwyd incwm o £207,000 i ad-dalu digwyddiadau priodoladwy. Mynychwyd 41 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu ag 19 yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd costau adnoddau a datblygu corfforaethol yn £3.8 miliwn ac yn cynnwys costau deiliadaeth o £726,000 a gwasanaethau allanol o £1.6 miliwn, yn cynnwys TG, Adnoddau Dynol, gwasanaethau adeilad a chyfrifo.

Cynhaliwyd chwech o gyfarfodydd cyngor ffurfiol yn ystod y flwyddyn, ynghyd â saith cyfarfod arall: diwrnod strategaeth a nifer o weithdai.

Adroddiad y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Datganiad ar gyfrifoldeb y cyngor dros baratoi'r datganiadau ariannol

Y cyngor sy'n gyfrifol am baratoi adroddiad a datganiadau ariannol y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, yn unol â deddfau a rheoliadau perthnasol.

Dan Orchymyn Fferyllol 2010, mae'n ofynnol ar i'r cyngor baratoi datganiadau ariannol am bob blwyddyn ariannol. Mae'r Cyfrin Gyngor, dan y gyfraith honno, wedi cyfarwyddo'r cyngor i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Cyfrifo y DU a Dderbynnir yn Gyffredinol (Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig a deddfau perthnasol). Ni fydd aelodau'r Cyngor yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol os nad ydynt yn hyderus eu bod yn rhoi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad a'r gweddill neu'r diffyg ariannol am y cyfnod dan sylw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae gofyn i aelodau'r cyngor:

- ddewis polisïau cyfrifo priodol ac yna eu defnyddio gyda chysondeb
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gonest
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo'r DU, yn amodol ar unrhyw eithriadau a ddatgelir ac yr eglurir nhw yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail sefydliad sy'n dal yn weithredol oni bai ei fod yn amhriodol i ystyried y bydd y cyngor yn dal yn weithredol

Mae aelodau'r cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion ariannol digonol. Mae'n rhaid i'r rhain allu dangos ac egluro prynu a gwerthu'r cyngor a datgelu yn rhesymol gywir, ar unrhyw adeg, gyflwr ariannol y cyngor. Rhaid iddynt ganiatáu i'r aelodau allu sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Gorchymyn Fferyllol 2012. Mae aelodau'r cyngor hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cyngor ac felly rhaid iddynt gymryd camau i rwystro a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Gyhyd ag y gwyr pob un o aelodau'r cyngor:

- nid oes gwybodaeth archwilio perthnasol nad yw archwilwyr y cyngor yn ymwybodol ohonynt
- mae aelodau'r cyngor wedi gwneud popeth y dylent fod wedi ei wneud i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth gyfrifo berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Apwyntio archwilwyr

Mae'r CFfC wedi ailapwyntio Grant Thornton UK LLP yn archwilwyr iddo.
Drwy orchymyn y Cyngor

Bob Nicholls
Cadeirydd
14 Mehefin 2012

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Rydym ni wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012 sy'n cynnwys datganiad incwm a gwariant, mantolen a'r datganiad llif ariannol a'r nodiadau perthnasol. Y fframwaith adrodd a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi oedd deddfau perthnasol a Safona Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarferion Cyfrifo'r Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol).

Gwneir yr adroddiad hwn i'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn unig, yn unol ag Atodiad 1, paragraff 7(3) Gorchymyn Fferyllol 2010. Rydym ni wedi ymgymryd â'r gwaith archwilio er mwyn gallu dweud wrth y cyngor, fel corff, y materion hynny sydd angen eu cynnwys mewn adroddiad archwilio ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau pennaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb i neb heblaw am y CFfC, ac aelodau ei gyngor fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, ac am y farn sydd gennym.

Cyfrifoldebau aelodau'r cyngor a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn llawnach yn natganiad o gyfrifoldebau aelodau'r cyngor ar dudalen 36, aelodau'r cyngor sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac mae'n rhaid iddynt fod yn hyderus eu bod yn rhoi adlewyrchiad gwir a theg. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio a datgan barn ar y datganiadau ariannol, yn unol â deddfau perthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifo (y DU ac Iwerddon), Mae'n rheidrwydd arnom, dan y safonau hynny, i gydymffurfio â' Safonau Moesegol i Gyfrifwyr y Bwrdd Ymarfer Cyfrifo (APB).

Cwmpas archwiliad y datganiad ariannol

Mae archwiliad yn galw am gaglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, yn ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad oes datganiadau materol anghywir yn y datganiadau, boed drwy gamgymeriad neu dwyll.

Mae hyn yn cynnwys asesu: a ydy'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r CFfC ac wedi eu defnyddio gyda chysondeb a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol y mae'r amcangyfrifon ariannol a wnaed gan aelodau'r cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, rydym ni'n darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol i ganfod anghysondebau materol. Os ydym ni'n canfod datganiadau materol anghywir neu anghyson rydym ni'n ystyried yr ymhlygiadau yn ein hadroddiad.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y CFfC fel yr oedd ar 31 Mawrth 2012, ac o'r gweddill ariannol oedd ganddo am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012; yn unol ag Ymarferion Cyfrifo'r Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol.

Grant Thornton UK LLP

Grant Thornton UK LLP
Archwilydd statudol
Llundain NW1 2EP
14 Mehefin 2012

Datganiad incwm a gwariant

am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012

	Nodyn	2012 £000	2011 £000
Incwm	2	21,327	10,716
Gwariant	3	14,115	8,339
Gwarged gweithredol		7,212	2,337
Llog derbyniadwy ac incwm teby	4	208	112
Gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn treth	5	7,420	2,489
Trethiant	6	40	24
Gwarged ar weithgareddau cyffredin ar ôl treth		7,380	2,465
Cysoni cyllid			
Cyfanswm cyllid a ddygwyd ymlaen		2,465	-
Cyllid cronedig fel y mae ar 31 Mawrth		9,845	2,465

Mae holl weithgareddau'r CFfC yn barhaol.

Nid oes enillion neu golledion am y flwyddyn ariannol gyfredol na blaenorol heblaw am y rhai a nodir yn yr incwm a'r gwariant uchod; felly nid oes datganiad ar wahân wedi ei baratoi ar enillion a cholledion.

Mantolen

fel y mae ar 31 Mawrth 2012

	Nodyn	2012 £000	2012 £000	2011 £000	2011 £000
Asedau Sefydlog					
Asedau Pendant	7		156		58
Asedau Cyfredo					
Dyledwyr	8	908		980	
Banc ac arian parod	9	25,382		19,737	
		26,290		20,717	
Credydwyr: symiau fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn	10	16,601		18,310	
Asedau cyfredol net			9,689		2,407
Cyfanswm asedau net			9,845		2,465
Cyllid ddefnyddiwyd					
Cyllid cronedig wedi ei ddwyn ymlaen			2,465		2,465
Gwarged am y flwyddyn			7,380		-
Cyfanswm cyllid ddefnyddiwyd			9,845		2,465

Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 37 i 48 eu cymeradwyo a'u llofnodi ar ran y Cyngor ar 14 Mehefin 2012 gan:

Bob Nicholls
Cadeirydd
14 Mehefin 2012

Datganiad llif arian

am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012

	Nodyn	2012 £000	2011 £000
Gweithgareddau gweithredol			
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol	12	5,649	19,718
Enillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu arian			
Llog ac incwm tebyg dderbyniwyd		-	112
Llog taladwy a gwariant tebyg		-	-
Treth			
Treth gorfforaethol y DU a dalwyd		(41)	(24)
Treth gorfforaethol y Du a ad-dalwyd		-	-
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol			
Prynu asedau sefydlog pendant		(171)	(69)
Cynnydd mewn arian parod am y cyfnod		5,645	19,737
Cysoni llif arian net i gronfeydd net			
Cynnydd mewn arian parod am y cyfnod		5,645	19,737
Cronfa arian parod net fel y mae ar 1 Ebrill		19,737	-
Cronfa arian parod net fel y mae ar 31 Mawrth		25,382	19,737

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012

1. Polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, yn unol â'r safonau cyfrifyddu cymwys a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifeg cyn belled ag y mae'r gofynion hynny'n briodol. Paratowyd y cyfrifon ar sail barhaus.

a) Fformat y Cyfrifon

Mae'n ofynnol bod y CFfC yn paratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a benderfynir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyfrin Gyngor osod y cyfrifon ardystiedig gerbron y ddau Dy Senedd a Senedd yr Alban.

b) Asedau sefydlog

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cynnwys eiddo ac offer. Mae'r holl asedau yn y categorïau hyn sydd â gwerth o £1,000 neu fwy wedi'u cyfalafu (gan gynnwys cost gweithredu); yr unig eithriad i'r rheol hon yw cyfrifiaduron personol a gliniaduron gan fod y rhain hefyd wedi'u cyfalafu ond eu bod yn dibrisio o fewn 12 mis i'r dyddiad prynu. Caiff asedau sefydlog eu prisio ar gost llai dibrisiad.

Mae dau adeilad ar les ar hyn o bryd, un yn Albert Embankment , fydd yn dod i ben ar 28 Medi 2015, ac un ar Lambeth Road, fydd yn dod i ben 26 Medi 2012. Mae trafodaethau yn digwydd ar hyn o bryd gyda landlord Lambeth Road i ymestyn y les am ddwy flynedd ychwanegol.

Pan gafodd y CFfC gyfrifoldeb dros yr holl reoleiddio, trosglwyddwyd pob ased oedd yn cael ei defnyddio gan y staff a drosglwyddwyd hefyd draw i'r CFfC ar 27 Medi. Offer TG oedd y rhain gan mwyaf, ac fe'i trosglwyddwyd ar sail gwerth sero. Yr ased fwyaf a drosglwyddwyd oedd gweinydd a fyddai'n costio hyd at £125,000 pe bai angen ei newid. Yn ystod y flwyddyn, mae £64,000 wedi cael ei fuddsoddi mewn offer a meddalwedd TG newydd. Dros y 12 mis nesaf, bydd seilwaith TG y CFfC yn cael ei gyflenwi'n allanol. Bydd angen buddsoddi'n sylweddol i gwblhau hyn. Bydd angen buddsoddi'n bellach dros y 18 mis nesaf wrth i ni ystyried newid systemau etifeddu.

Dyma hyd bywyd economaidd defnyddiol yr asedau:

Eiddo ar les byr – hyd y les
Celfi swyddfa – pum mlynedd
Meddalwedd cyfrifiadurol – pum mlynedd
Caledwedd cyfrifiadurol (heblaw am PCs a gliniaduron)– tair mlynedd
PCs a gliniaduron – un flwyddyn

c) Gwariant

Cyfrifir gwariant ar sail groniadol. Mae TAW anadferadwy wedi'i gynnwys gyda'r eitem gwariant y mae'n perthyn iddo.

d) Incwm

Mae'r holl ffioedd gan gofrestryddion a lleoliadau wedi'u cydnabod yn y cyfrif Incwm a Gwariant yn y cyfnod maent yn perthyn iddynt. Mae incwm sydd i'w briodoli yn y dyfodol wedi'i gynnwys gyda chredydwyr o dan y categori Incwm Gohiriedig.

Mae incwm gan fuddsoddwyr wedi'i gynnwys yn y datganiad ariannol pan dderbyniwyd. Caiff llog ar fenthyciadau ac adneuon eu cronni fel y cânt eu hennill.

Mae'r grantiau refeniw a dderbyniwyd yn cael eu cyfateb yn erbyn gwariant y project penodol mewn cysylltiad â phryd y cânt eu rhoi. Pan fydd projectau yn pontio mwy nag un cyfnod cyfrifyddu, caiff balans y grant sy'n weddill ei ddwyn ymlaen a'i gynnwys gyda chredydwyr o dan y categori Incwm Gohiriedig. Caiff yr holl incwm arall ei gydnabod yn y datganiad Incwm a Gwariant pan fydd yn ddyledus.

e) Cyfnewid arian o dramor

Caiff asedau a rhwymedigaethau a nodir mewn arian tramor eu cyfnewid i sterling ar y gyfradd ar ddiwrnod y fantolen. Cofnodir unrhyw wahaniaethau'r gyfnewidfa dramor yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn maent yn perthyn iddynt.

f) Costau pensiwn

Diogelir cyflogeion gan ddarpariaethau Cynllun Pensiynau'r GIG. Cynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu yw'r cynllun sy'n cwmpasu cyflogwyr y GIG a chyrff eraill a ganiateir dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol yng Nghymru a Lloegr. Nid bwriad y cynllun yw rhedeg mewn ffordd sy'n galluogi cyrff y GIG i nodi eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol. Felly nid yw'r cynllun wedi'i gyfrif amdano fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig; mae'r gost i CFFC er mwyn cymryd rhan yn y cynllun yn hafal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

Mae'r cynllun yn ddarostyngedig i brisiad llawn yr actwari bob pedair blynedd (tan 2004, bob pum mlynedd) a phrisiad cyfrifyddu bob blwyddyn. Mae amlinelliad o'r rhain yn dilyn:

i) Prisiad actiwaraidd (cyllido) llawn

Diben y prisiad hwn yw asesu lefel cyfrifoldeb mewn perthynas a'r buddion sy'n ddyledus o dan y cynllun (gan ystyried profiad demograffig diweddar), ac argymell y graddau cyfrannu i'w talu gan gyflogwyr ac aelodau'r cynllun. Cwblhawyd y prisiad actiwaraidd ffurfiol diwethaf o Gynllun Pensiwn y GIG am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008. Fodd bynnag, mae prisiadau actiwariadd ffurfiol o gynlluniau gwasanaeth cyhoeddus na chyllidir wedi eu hatal dros dro tra bo'r newidiadau diweddar i bensiynau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu hystyried a thra bo termau cynlluniau'r dyfodol yn cael eu datblygu fel rhan o'r diwygiadau i'r ddarpariaeth bensiwn yn y gwasanaeth cyhoeddus.

Casgliad prisiad 2004 oedd bod y cynllun wedi cronni diffyg tybiannol o £3.3 biliwn yn erbyn asedau tybiannol ar 31 Mawrth 2004. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y newidiadau yn y strwythur buddion a chyfraniadau sy'n effeithiol o 1 Ebrill 2008, roedd actwari'r cynllun yn nodi y gallai cyfraniadau cyflogwyr barhau ar y gyfradd bresennol o 14% o'r tâl pensiynadwy. Yn ôl cyngor gan actwari'r cynllun, gallai'r cyfraniadau cynllun amrywio o bryd i'w gilydd i adlewyrchu newidiadau yn rhwymedigaethau'r cynllun. Hyd at 31 Mawrth 2008, roedd y mwyafrif helaeth o gyflogeion yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 6% o'r tâl pensiynadwy. O 1 Ebrill 2008, mae cyfraniadau cyflogeion ar gyfradd haenog o 5% hyd at 8.5% o'u tâl pensiynadwy yn dibynnu ar gyfanswm enillion.

ii) Prisiad cyfrifo

Cynhelir prisiad o rwymedigaeth y cynllun yn flynyddol gan actwari'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod adrodd drwy ddiweddaru canlyniadau prisiad llawn yr actwari.

Rhwng prisiadau llawn yr actwari ar bwynt canolig drwy flynedd, darperir cyfres data aelodau llawn a manwl i actwari'r cynllun. Ar yr adeg hon caiff tybiaethau ynghylch cyfansoddiad aelodaeth y cynllun eu diweddaru er mwyn gallu prisio rhwymedigaeth y cynllun.

Mae prisiad cyfrifoldeb y cynllun ar 31 Mawrth 2011 wedi ei seilio ar ddata aelodaeth manwl fel y mae ar 31 Mawrth 2011 (y pwynt canolog diweddaraf) wedi eu diweddaru i 31 Mawrth 2011 gyda data cyfrifo ac aelodaeth cyffredinol.

Mae asesiad diweddaraf o rwymedigaeth y cynllun wedi'i gynnwys yn adroddiad actwari'r cynllun, sy'n rhan o Gyfrifon Adnoddau Cynllun Pensiynau'r GIG (Cymru a Lloegr) blynyddol, a gyhoeddir yn flynyddol. Gellir gweld y rhain ar wefan Pensiynau'r GIG. Gellir hefyd gael copïau gan y Llyfrfa.

iii) Darpariaethau'r cynllun

Cynllun "cyflog terfynol" yw'r cynllun. Mae pensiynau blynyddol fel arfer yn seiliedig ar 1/80fed (ar gyfer yr aelodau hynny yng nghynllun 1985) neu 1/60fed (ar gyfer aelodau hynny yng nghynllun 1998) o'r gorau o'r tâl pensiynadwy 3 blynedd olaf ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Mae cyfandaliad sydd fel arfer yn hafal i 3 blynedd o bensiwn yn daladwy ar ymddeoliad. Mae cynnydd blynyddol yn gymwys i daliadau pensiwn ar gyfraddau a ddiffinnir gan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971, ac yn seiliedig ar newidiadau mewn prisiadau manwerthu yn y deuddeg mis sy'n dod i ben 30 Medi yn y flwyddyn galendr flaenorol.

Mae taliad marwolaeth yn daladwy i'r rhai sy'n marw yn ystod gwasanaeth neu yn fuan ar ôl ymddeol sy'n ddwywaith tâl pensiynadwy am farwolaeth tra mewn gwasanaeth, a phum gwaith eu pensiwn blynyddol am farw ar ôl ymddeol, llai'r pensiwn a dalwyd eisoes, yn amodol ar swm mwyafrif sy'n hafal â dwywaith tâl pensiynadwy blwyddyn waith olaf yr aelod, llai'r swm a dalwyd ar ymddeol.

Ar gyfer ymddeoliad cynnar heblaw'r rheiny oherwydd salwch ni chaiff y rhwymedigaeth pensiwn ychwanegol ei ariannu gan y cynllun. Telir swm llawn y rhwymedigaeth ar gyfer y costau ychwanegol i'r datganiad o incwm cynhwysfawr ar yr adeg mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymo ei hun i'r ymddeoliad, waeth beth fo'r dull talu.

Gall aelodau brynu gwasanaeth ychwanegol yng Nghynllun y GIG a chyfrannu at brynu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a ddarperir gan ddarparwyr y Cynllun neu ddarparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Annibynnol Ychwanegol (FSAVC).

g) Rhent prydles gweithredol

Telir rhent prydles gweithredol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant wrth iddynt godi dros dymor y brydles ar sail llinell syth.

h) Rheoli adnoddau hylifol

Mae gan y CFfC un prif gyfrif cyfredol y mae gweithgareddau trafodion dydd i ddydd yn digwydd. Cedwir balans y cyfrif hwn mor isel â phosib i sicrhau bod arian gormodol yn cael eu gosod ar adneuon tymor byr – canolig. Ein polisi o ran rheoli ein harian parod yw gwneud y gorau o adenillion tra'n lleihau risg.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012

2. Incwm

	2012	2011
	£000	£000
Fferyllwyr	12,445	3,099
Lleoliadau	3,449	947
Technegwyr Fferyllol	3,443	642
Cyn gofrestru	969	14
Incwm arall o ffioedd	89	4,040
Incwm grant	528	1,767
Incwm arall	404	207
Cyfanswm incwm	**21,327**	**10,716**

Mae "incwm arall sy'n gysylltiedig â ffioedd" yn cynnwys yr arian sy'n ddyledus gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol fel rhan o'r drefn drosglwyddo ar gyfer ffioedd.

3. Gwariant

	2012	2011
	£000	£000
		*Ailddatgan**
Costau sefydlu	25	1,764
Prif weithredwr a chofrestrydd	551	173
Polisi a Chyfathrebu	1,766	476
Achredu	621	239
Addysg a Datblygu Proffesiynol Parhaus	751	457
Ymchwilio a Rheoli Achosion	1,849	1,036
Arolygu	1,892	1,013
Gwrandawiadau	714	387
Gwasanaethau Cwsmer	1,529	793
Adnoddau a Datblygu Corfforaethol	3,830	1,699
Cyngor a Llywodraethu	587	302
Cyfanswm Gwariant	**14,115**	**8,339**

*Wedi ei ailddatgan er mwyn adlewyrchu'n fwy priodol ailstrwythuro'r sefydliad ym Medi 2011.

Costau Cyflogeion

Roedd costau cyflogeion yn cynnwys y canlynol:

	2012	2011
	£000	£000
		*Ailddatgan**
Cyflogau a thâl	5,222	2,743
Yswiriant Cenedlaethol Cyflogeion	498	253
Costau pensiwn	453	261
	6,173	3,257

*Wedi ei ailddatgan er mwyn peidio â chynnwys costau cysylltiol.

Ar 31 Mawrth 2012 roedd y CFfC yn cyflogi 146 o bobl.

Roedd taliadau'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd a'r Cyfarwyddwyr, ac eithrio cyfraniadau pensiwn, yn perthyn i'r ystodau canlynol:

	Nifer o unigolion	Nifer o unigolion
£0 - £50,000	-	-
£50,001 - £80,000	-	-
£80,001 - £100,000	2	2
£100,001 - £120,000	1	1
£120,001 - £140,000	1	1

Tal a threuliau aelodau'r cyngor

	2012	2011
	£000	£000
Cyfanswm tâl aelodau'r cyngor	208	204
Cyfanswm treuliau aelodau'r cyngor	29	33
	237	**237**

4. Llog derbyniadwy ac incwm tebyg

	2012	2011
	£000	£000
Llog derbyniadwy	208	112
	208	**112**

5. Gwarged ar weithgareddau arferol cyn trethiant

Nodir hyn ar ôl codi:

	2012	2011
	£000	£000
Cerbydau modur: hurio ac ar les	126	109
Lleihad yng ngwerth asedau pendant	73	11
Tâl archwilwyr: gwasanaethau archwilio	22	25
gwasanaethau eraill	-	-
	221	**145**

6. Trethiant

	2012	2011
	£000	£000
Treth gorfforaethol y DY ar 20% (2011: 21%) yn ystod y flwyddyn	40	24
	40	**24**

Mae treth gorfforaeth ond yn daladwy ar log sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn.

7. Asedau sefydlog

	Prydles byr	Offer Swyddfa	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Cost			
Fel y mae ar 1 Mawrth 2011	28	41	69
Ychwanegiadau	52	119	171
Gwaredu	-	-	-
Fel y mae ar 31 Mawrth 2012	**80**	**160**	**240**
Dibrisiad			
Fel y mae ar 1 Mawrth 2011	4	7	11
Tâl am y flwyddyn	27	46	73
Gwaredu	-	-	-
Fel y mae ar 31 Mawrth 2012	**31**	**53**	**84**
Gwerth Llyfr Net			
Fel y mae ar 31 Mawrth 2012	**49**	**107**	**156**
Fel y mae ar 31 Mawrth 2011	24	34	58

8. Dyledwyr

	2012	2011
	£000	£000
Dyledwyr masnachol	166	27
Debydau uniongyrchol aelodau i'w casglu	264	649
Dyledwyr eraill	27	15
Rhagdaliadau ac incwm wedi ei ohirio	451	289
	908	980

Cynyddodd dyledwyr masnachol drwy i sefydliadau corfforaethol mawr dalu i'w technegwyr fferyllol i ymaelodi. Anfonwyd anfonebau ym mis Mawrth. Unwaith yn unig y bydd hyn yn digwydd, a hynny yn sgil aelodaeth orfodol i dechnegwyr fferyllol. Yn y dyfodol byddant yn cofrestru'n uniongyrchol gyda'r CFfC.

Mae'r balans is o ddebydau uniongyrchol gan aelodau am fod yn rhaid i bob aelod cofrestredig dalu'r ffi adnewyddu ddau fis cyn y dyddiad dirwyn i ben. Yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol roedd y rheolau ychydig yn wahanol: roedd rhaid i aelodau adnewyddu o fewn mis i'r dyddiad dirwyn i ben. Mae hyn wedi golygu bod y prif ddebyd uniongyrchol wedi ei gymryd fis yn gynharach nag yn y flwyddyn flaenorol.

9. Banc ac arian parod

	2012	2011
	£000	£000
Cyfrifau cyfredol	217	(317)
Cyfrifau cadw	25,152	20,040
Fflôt arian mân	13	14
	25,382	**19,737**

Nid yw balans cyfrif cyfredol y banc byth yn mynd i orddrafft. Y rheswm y mae'r cyfrif cyfredol o ran y cyfrifon yn dangos bod balans gorddrafft ym Mawrth 2011cyw oherwydd bod £339K o'r taliadau heb glirio'r cyfrif banc eto. Cedwir balans y cyfrif cyfredol mor isel â phosib a thynnir arian o'r cyfrifon adneuon i'r cyfrif cyfredol pan fo angen i sicrhau bod yr adenillion mwyaf posibl yn cael ei ennill o'r arian wrth adneuo.

10. Credydwyr: - Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2012	2011
	£000	£000
Credydwyr masnachol	408	369
Treth gorfforaethol	41	24
Trethi eraill CThEM	180	160
Credydwr eraill	39	1,286
Credyd cronnol	554	1,342
Incwm wedi ei ohirio	15,379	15,129
	16,601	**18,310**

Mae'r lleihad mewn credydwyr eraill oherwydd swm o £1,286,000 sy'n ddyledus i'r Adran Iechyd mewn perthynas â phensiynau staff a drosglwyddwyd i gynllun pensiwn y GIG. Talwyd hwn o fewn y flwyddyn ariannol hon.

Roedd y lleihad mewn credyd cronnol yn y flwyddyn hon oherwydd cronni cyllid am y gwasanaethau allanol a dderbyniwyd. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, arwyddwyd y contract ac mae pob taliad wedi ei wneud.

Mae incwm gohiriedig yn cynnwys y canlynol:

	2012	2011
	£000	£000
Incwm gan aelodau a lleoliadau wedi ei ohirio	13,089	12,315
Incwm arall wedi ei ohirio	3	-
Grant cyfalaf gwaith	2,189	2,604
Grant ailddilysu	76	76
Grantiau eraill	22	134
	15,379	**15,129**

11. Ymrwymiadau

Ar 31 Mawrth 2012 roedd gan y CFfC yr ymrwymiadau canlynol mewn perthynas â phrydlesau gweithredol:

	2012	2011
	£000	£000
Prydlesi gweithredol sy'n dod i ben:		
O fewn blwyddyn	30	12
Ar ôl blwyddyn	135	220
	165	**232**

12. Cysoni gwarged gweithredu i fewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu

	2012	2011
	£000	£000
Gwarged gweithredol	7,212	2,377
Dibrisiad asedau sefydlog pendant	73	11
Elw/coledd o waredu asedau sefydlog pendant	-	-
Gostyngiad mewn dyledwyr	72	(980)
(Gostyngiad) mewn credydwyr	(1,708)	18,310
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol	**5,649**	**19,718**

13. Partïon cysylltiedig

Nid oes unrhyw drafodion gyda phartïon cysylltiedig heblaw am y trafodion sydd wedi'u datgan gydag aelodau'r Cyngor yn nodyn 3.("tâl a threuliau aelodau'r cyngor").

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Penderfyniad Cyfrifo gan y Cyfrin Gyngor dan Orchymyn Fferyllol 2012

Mae Eu Harglwyddi yn penderfynu fel a ganlyn wrth ymarfer y pwerau a roddir gan Atodlen 1 (7) Gorchymyn Fferyllol 2010.

Mae'r penderfyniad hwn yn weithredol o 13 Mawrth 2010.

Dehongliad

1. Yn y penderfyniad hwn –

   Mae **"y cyfrifon"** yn golygu y datganiad cyfrifon y mae'n ddyletswydd ar y Cyngor eu paratoi dan adran 2 Atodlen 1 (7) Gorchymyn Fferyllol 2010

   Mae **"y Cyngor"** yn golygu'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.

Penderfyniad

2. Rhaid i'r Cyngor baratoi'r cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn galendr yn unol a'r egwyddorion cyfrifo a gofynion datgelu a nodir yn y Safonau Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol (GAAS).

3. Bydd y cyfrifon cyntaf yn cael eu paratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-2011, ac yn cynnwys datganiad ar unrhyw gyfrifon sy'n weddill o'r flwyddyn ariannol 2009-2010.

4. Rhaid i'r cyfrifon gael eu paratoi i:

   - roi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad fel y mae ar ddiwedd y flwyddyn galendr ac o'r incwm a'r gwariant, cyfanswm enillion a cholledion (neu, fel y bo'n briodol, enillion a cholledion), a llif arian y Cyngor am y flwyddyn galendr a ddaeth i ben; a

5. Bydd cydymffurfio gyda'r GAAS yn angenrheidiol, heblaw am mewn amgylchiadau neilltuol, er mwyn i'r cyfrifon roi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad yn y flwyddyn ariannol dan sylw.

6. Os oes amgylchiadau neilltuol o'r fath ac y byddai cydymffurfio â gofynion y GAAS yn arwain at baratoi cyfrifon sy'n anghyson gyda'r anghenraid iddynt fod yn adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad ar ddiwedd y flwyddyn, dim ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol i roi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad y dylid gwyro oddi wrth y GAAS

7. Mewn achosion y cyfeirir atynt ym mharagraff 5, dylid defnyddio crebwyll diduedd a gwybodus i lunio triniaeth wahanol sy'n gyson gyda nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw.

8. Dylid trafod gwyro materol o'r GAAS, gyda'r Cyfrin Gyngor gyntaf mewn unrhyw amgylchiadau.

9. Rhaid atgynhyrchu'r penderfyniad hwn fel atodiad i'r cyfrifon cyhoeddedig.

Arwyddwyd drwy awdurdod
y Cyfrin Gyngor